# Gofal Clyw GIG Cymru

## Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| Gofal Clyw GIG Cymru: Y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol a'r prif flaenoriaethau | 6 |
| Gofal Clyw GIG Cymru: Y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol | 8 |
| Atodiad A: Llwybrau Awdioleg GIG Cymru | 26 |
| Atodiad B: Ystadegau Awdioleg | 27 |
| Atodiad C: Dyfodol Gwasanaethau Awdioleg GIG Cymru 2025-30 – ein gweledigaeth | 30 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53896, ISBN digidol 978-1-83715-984-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair y Gweinidog

Mae gofal clyw y GIG yn cael ei ddiwygio a'i foderneiddio i gyd-fynd â'r newidiadau yn anghenion dinasyddion Cymru.

Bydd ein dull gweithredu yn adlewyrchu'r ffordd rydym yn byw, er mwyn iddo gyd-fynd â'n ffordd o fyw a'n disgwyliadau o safbwynt plant ac oedolion. Mae pobl yn byw'n hŷn; mae triniaethau newydd ar gael, ac mae technoleg newydd yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd.

Rhaid i wasanaethau integredig, di-dor, wedi'u cydgysylltu ar draws gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd fynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth bresennol er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd a lles pobl a galluogi pawb i gyflawni eu llawn botensial yn addysgol, o ran cyflogaeth ac yn gymdeithasol.

Ein huchelgais o 2025 ymlaen yw parhau ar ein taith, gan ddwyn ynghyd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi'u dylunio a'u darparu ar sail anghenion defnyddwyr gwasanaethau a dewisiadau ein dinasyddion, gyda llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach er mwyn sicrhau gwell cyfleoedd mewn bywyd iddynt. Bydd hyn yn cynnwys hunanreoli, a phobl yn cael eu cefnogi i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan gwmpasu'n llawn amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – "*i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.*"

Mae awdioleg yn mynd law yn llaw â chynlluniau strategol Llywodraeth Cymru ac mae'n alluogwr allweddol i gyflawni amcanion *Cymru Iachach*, sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus ac yn cyd-fynd â'r *Model Gofal Sylfaenol* a'r Rhaglen Datblygu Clystyrau gysylltiedig. Mae yna gyd-fynd pwysig hefyd â Mwy na geiriau, cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol – ac wrth galon hyn ceir y Cynnig Rhagweithiol (sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na bod defnyddwyr gwasanaethau yn gorfod gofyn amdanynt) a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol. Mae *Cymru Iachach* yn cynnwys camau gweithredu penodol i sicrhau y gall dinasyddion dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal amserol yn deg, pa bynnag iaith neu fformat cyfathrebu sydd eu hangen arnynt.

Mae rôl awdioleg wedi datblygu, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol ers cyflwyno'r Fframwaith Gweithredu (2017). Y pwynt cyswllt cyntaf i gael mynediad at wasanaethau awdioleg ar gyfer pobl â phroblemau clyw yw'r uwch-ymarferwyr awdioleg mewn gofal sylfaenol, sy'n asesu, rhoi diagnosis, trin a rheoli gofal clyw ac sy'n stopio atgyfeiriadau diangen at nyrsys cymunedol, meddygon teulu ac adrannau'r glust, y trwyn a'r gwddf (ENT) mewn ysbytai. Mae gwasanaethau awdioleg eisoes yn rhyddhau capasiti ac yn lleihau rhestrau aros ar draws gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd; fodd bynnag, mae angen i ni fynd ymhellach yn gynt a bydd y dull gweithredu ar gyfer awdioleg yn y dyfodol yn ein helpu i wneud hyn mewn ffordd gyson gydag amcanion a chanlyniadau clir. Allwn ni ddim fforddio gwneud y peth anghywir.

Mae awdioleg yn rhan annatod o'r broses o drawsnewid gofal clyw a datblygiad parhaus y ddarpariaeth o ofal yn nes at y cartref. Mae timau awdioleg yn gweithio ar y cyd â phroffesiynau ledled GIG Cymru, mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd, i ddarparu gwasanaethau o fewn llwybrau cleifion, gan weithio ar frig eu trwydded glinigol. Mae awdiolegwyr yn darparu cysylltiad allweddol o ran adnabod eiddilwch cynyddol yn fuan, cefnogi pobl â dementia, lleihau cwympiadau a chefnogi cleifion yn eu bywydau o fewn y model gofal cymunedol gwell sy'n cynyddu'n barhaus.

Mae timau awdioleg, sydd wedi'u cyfoethogi gan gysylltiadau eang a dwfn a ddatblygwyd dros amser ac a gryfhawyd ers cyhoeddi'r *Fframwaith Gweithredu*, yn parhau i gydweithio â phroffesiynau eraill i ddefnyddio eu set sgiliau llawn yn ddi-dor a gweithio mewn ffyrdd newydd ac arloesol i wella canlyniadau i ddinasyddion sy'n cael mynediad at ofal clyw ar unrhyw bwynt ar hyd y llwybrau. Mae timau awdioleg yn gweithredu mewn modd rhagweithiol ac maent wedi esblygu'n hawdd yn sgil y cysylltiadau hyn a'r cyd-werthoedd, gan berchnogi'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a gwthio'r tîm clinigol ymlaen yn barhaus i wneud y cynnydd sydd ei angen i wella gofal clyw y GIG.

Mae'r *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol* yn arloesol a thrawsnewidiol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd rhoi dinasyddion wrth galon y gwasanaethau, er mwyn gwella eu profiad a'u canlyniadau. Lluniwyd y *Dull Gweithredu* ar y cyd â'n holl randdeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru – Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, y Grŵp Cynghori Sefydlog Arbenigol ar Awdioleg (ASSAG), y Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg, yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd (AHCS), yr Academi Awdioleg Brydeinig (BAA), is-arbenigedd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, gwasanaethau ENT yng Nghymru, a'r Trydydd Sector. Bydd y cydweithio parhaus hwn yn sicrhau ein bod yn symud ymlaen gyda'n gilydd i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol.





**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Crynodeb Gweithredol

Nod yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac ymateb dilynol y Llywodraeth, Cymru Iachach, oedd sicrhau datblygiad a gweithrediad modelau gwasanaeth newydd mewn iechyd a gofal cymdeithasol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i wella canlyniadau i ddinasyddion, gan ystyried y newidiadau demograffig, sy'n hysbys iawn, y ffaith bod mwy o bobl, a bod y bobl hynny'n byw'n hŷn. Cydnabyddir effaith y newidiadau hyn o fewn y boblogaeth ar wasanaethau awdioleg.

Mae moderneiddio gwasanaethau awdioleg yn hanfodol. Amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru'n tyfu 5.9% i 3.32 miliwn erbyn canol 2032 a 10.3% i 3.46 miliwn erbyn 2047. Disgwylir i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu 19.6% i 806,000 erbyn canol 2032, gan gyrraedd dros un filiwn erbyn 2060. Mae'r newid demograffig yn arwyddocaol oherwydd mae colli clyw yn gysylltiedig ag oedran yn gyffredin ymhlith oedolion hŷn e.e. mae dros hanner poblogaeth y DU sy'n 55 oed neu hŷn yn profi colled clyw, ac mae 80% o'r rhai dros 70 oed wedi'u heffeithio. Amcangyfrifir bod data sy'n benodol i Gymru ar gyffredinrwydd colled clyw yn 480,000 o bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, sef tua 1 o bob 7 o'r boblogaeth.

Gan ddysgu o'r hyn a wnaed yn y gorffennol a thrwy ddadansoddiad cadarn o fynediad presennol y boblogaeth a'r galw a ragwelir yn y dyfodol, a thriniaethau a thechnolegau newydd, bu Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru, yn cwmpasu sut y dylai'r dyfodol edrych i ddinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau awdioleg wedi'u moderneiddio mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd.

Mae'r dyfodol yn gadarnhaol, fel y nodir  drwyddi draw yn y *Dull Gweithredu*, sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer Gwasanaeth Iechyd sy'n darparu ar gyfer dinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau awdioleg. Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar uwchsgilio'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau darbodus, mynediad gwell i leihau amseroedd aros, a darparu triniaethau a thechnolegau newydd i wella profiad a chanlyniadau cleifion. Caiff y rhain eu cwmpasu gan Fwrdd Awdioleg Cymru, a sefydlwyd i lywio'r camau gweithredu cenedlaethol a datblygiad negeseuon allweddol, er mwyn sicrhau gohebiaeth amserol ac effeithiol i'n holl randdeiliaid.

Mae Cymru'n rhagweithiol a bu ar y blaen ym maes gofal clyw ers tro byd. Ni oedd y wlad gyntaf yn y byd i gael strategaeth gofal clyw bwrpasol – *y Fframwaith Gweithredu* – a Chymru yw'r wlad gyntaf i ddatblygu *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol* – sef y sbardun ar gyfer gweithredu dros y degawd nesaf ar gyfer gwasanaethau awdioleg i oedolion a phlant. Mae Cymru wedi bod yn ymwahanu oddi wrth bolisi awdioleg y DU yn ystod y degawd diwethaf, felly nid yw'n bosibl eu cymharu'n uniongyrchol; fodd bynnag, mae ein dull gweithredu yn arloesol, a bydd y sector clyw ledled y DU yn gwylio'r cynnydd wrth i'n gwaith arloesol fynd rhagddo.

Mae'r papur trawsnewid hwn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer darparu gofal clyw a festibwlar awdioleg dros y degawd nesaf. I hysbysu ein dull gweithredu, rydym wedi ystyried a dysgu o'r hyn rydym wedi'i wneud, yn y gorffennol a'r presennol, ac rydym wedi edrych ar fynediad y boblogaeth, y galw, triniaethau, technolegau a chanlyniadau cyn cytuno ar ein prif flaenoriaethau.



# Gofal Clyw GIG Cymru: Dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau awdioleg yn y dyfodol a'r prif flaenoriaethau

1. **Cynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru:** Cyd-fynd â *Cymru Iachach*, sy'n seiliedig ar egwyddorion darbodus, y Model Gofal Sylfaenol i Gymru, sy'n seiliedig ar y Rhaglen Datblygu Clystyrau, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n seiliedig ar y saith nod llesiant, i ddarparu gwasanaethau awdioleg sy'n agos at y cartref i wella mynediad ac atal atgyfeiriadau diangen at nyrsys cymunedol, meddygon teulu ac adrannau ENT mewn ysbytai. Gan ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd ar sail gwerth, defnyddio adnoddau awdioleg i gael yr effaith orau bosibl. Cyd-fynd â chynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, Cynllun Hawliau Pobl Anabl a Mwy na geiriau (cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol)), i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ddiogel a theg.
2. **Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw ag amhariad ar y clyw neu â cholled clyw:** Adeiladu ar yr argymhellion, gyda ffocws ar awdioleg, er mwyn parhau i ymwreiddio iechyd a lles i wella canlyniadau i ddinasyddion. Gwella'r mynediad at gymorth i leihau anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â'r anghenion hysbys nas diwallwyd o fewn y boblogaeth. Cefnogi darpariaeth gofal a blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn grwpiau allweddol, sy'n cynnwys pobl iau, pobl hŷn, pobl sy'n defnyddio therapi lleferydd ac iaith, a phobl â dementia. Adeiladu ar y dull cydweithredol yn y *Fframwaith Gweithredu* i barhau i gynnal a datblygu cysylltiadau gyda'n holl bartneriaid.
3. **Ansawdd y Gofal:** Parhau i asesu, sicrhau a gwella ansawdd y gwasanaethau awdioleg dan arweiniad y Strategaeth Ansawdd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cyflawni ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys dull system gyfan cydweithredol, gan gynnwys datblygu a diwygio Safonau Ansawdd cenedlaethol y Gwasanaeth Awdioleg a chyflawni'r argymhellion yn Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Awdioleg Bediatrig. Sicrhau bod y gofal yn ddi-dor drwy ddefnyddio dull gweithredu integredig ar gyfer darparu llwybrau gofal.
4. **Y Gweithlu Awdioleg:** Adeiladu ar y cynlluniau i gynyddu nifer yr awdiolegwyr sy'n ennill cymwysterau uwch a gwella sgiliau timau awdioleg, datblygu prosiectau mentora, lleoliadau a chymrodoriaeth gyda AaGIC i ddatblygu arweinwyr ym maes awdioleg ac i reoli mwy o gleifion mewn gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Parhau i adeiladu ar gynlluniau'r gweithle a chyfleoedd eraill i hyfforddi, recriwtio a datblygu gweithlu awdioleg hyfedr ar draws y llwybr gyrfaoedd. Cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu drwy hybu'r cynllun iechyd a gofal cymdeithasol a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ymwreiddio ffocws ar y Gymraeg fel rhan o'r gwaith o gynllunio'r gweithlu drwy weithredu Canllawiau AaGIC ar Gynllunio Gweithlu ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Datblygu rôl a chwmpas ymarfer aelodau'r gweithlu awdioleg fel y gallant barhau i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i gynyddu eu cyfraniad at weithlu ehangach GIG Cymru a gweithredu ar frig eu trwydded/cofrestriad i wella canlyniadau i gleifion. Arweinwyr awdioleg i hyrwyddo a datblygu'r proffesiwn, yn enwedig ym maes gofal sylfaenol.
5. **Awdioleg a Chlystyrau Gofal Sylfaenol:** Adeiladu ar yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a fydd yn llywio diagnosis, triniaeth a'r gwaith o reoli awdioleg, fel y gellir darparu modelau gwasanaeth newydd ynghyd â llwybrau i ddiwygio'r ddarpariaeth, uwch-ymarferwyr awdioleg ym mhob Clwstwr, gan ryddhau capasiti ar gyfer nyrsys cymunedol a meddygon teulu drwy ddarparu mynediad uniongyrchol i gleifion sydd â phroblemau clyw pan fydd ei angen arnynt, a hynny'n nes at y cartref. Parhau i ddatblygu ac adolygu pob agwedd ar wasanaethau awdioleg, gan gynnwys rhaglenni sgrinio er mwyn sicrhau tystiolaeth a bod y gwasanaethau'n addas i'r diben, ac yn bodloni anghenion iechyd datblygol y boblogaeth.

6. **Awdioleg a Dementia:** Adeiladu ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, ei olynydd y strategaeth dementia a'r Llwybr Clyw a Dementia, parhau i gefnogi ymchwil ac archwilio ymhellach y cysylltiadau rhwng colled clyw a dementia a diweddaru'r sail wybodaeth i ddatblygu'r gwasanaethau a ddarperir i ymateb i gyffredinrwydd cynyddol dementia a'r cysylltiadau ag eiddilwch a chwympiadau. Adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y *Fframwaith Gweithredu* i sicrhau gofal clyw priodol, gan gynnwys asesiadau cof, i ddinasyddion yr amheuir bod dementia arnynt a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal. Cynnwys ffocws penodol ar fod yn sensitif o ran yr iaith a ddefnyddir, bod yn ymwybodol y gallai dementia ysgogi newid iaith mewn pobl amlieithog, gan beri iddynt newid i'w mamiaith. Parhau i gysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a datblygu gwasanaethau rhanbarthol ar y cyd. Parhau i ddatblygu capasiti a gallu'r gweithlu awdioleg er mwyn sicrhau y gallant gyfrannu at y dystiolaeth glinigol ar gyfer dementia a gofal clyw ehangach.
7. **Hunanreoli:** Dinasyddion i gael rôl allweddol, sef gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain, gwrando ar dystiolaeth wrth ddewis triniaethau a thechnolegau priodol a rheoli cyflyrau hirdymor i'w galluogi i fyw'n annibynnol ac i alluogi pawb i gyflawni eu llawn botensial yn addysgol, o ran cyflogaeth ac yn gymdeithasol. Hybu dull hunanreoli mewn perthynas â gofal clust a chlyw. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ddewis rhwng cymorth clyw neu strategaeth gyfathrebu neu ddyfais wrando gynorthwyol sydd ar gael mewn awdioleg neu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach.



8. **Y Trydydd Sector:** Awdiolegwyr Cynorthwyol (gan gynnwys rôl swyddog cyswllt) a, lle y bo'n briodol, gwirfoddolwyr â rôl allweddol yn cynorthwyo pobl i ddeall eu diagnosis clinigol, gofalu am gymhorthion clyw ac yn eu cyfeirio at rwydweithiau cymorth i wella canlyniadau cleifion a'u profiad o lywio'u camau nesaf. Datblygu rôl gwirfoddolwyr awdioleg i gefnogi hunanreoli a darparu cefnogaeth gan gymheiriaid i sicrhau bod cleifion yn cael y canlyniad gorau posibl.
9. **Seilwaith: Data TG a Gwasanaethau Digidol:** Adeiladu ar gynlluniau i wella systemau a phrosesau a chasglu a dadansoddi data ynghylch yr effaith ar ansawdd bywyd ac ar economïau lleol os na fydd problemau clyw yn cael eu canfod yn gynnar i hysbysu'r ddarpariaeth awdioleg a darparu gofal a rennir mewn gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. Sicrhau y gall gwasanaethau awdioleg GIG Cymru gynnig y technolegau a'r ymyriadau diweddaraf i bobl â cholled clyw. Adeiladu ar y cynnydd a wnaed gyda'r *Fframwaith Gweithredu* i ddatblygu systemau rheoli cleifion awdioleg fel y gallant integreiddio â'r systemau ehangach o'u cwmpas, gan gynnwys integreiddio ag Ap GIG Cymru i reoli apwyntiadau. Gwerthuso a manteisio ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Awdioleg. Sicrhau bod y gwasanaethau arbenigol yn briodol o ran maint ac ansawdd i gefnogi'r blaenoriaethau hyn yng nghyfleusterau pob lleoliad, ystad a chyfleuster iechyd.
10. **Cyfathrebu:** Adeiladu ar Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd a datblygu negeseuon allweddol i hysbysu ymgyrchoedd yn y dyfodol i gynghori dinasyddion. Parhau i hyfforddi timau awdioleg a gweithlu ehangach GIG Cymru i ddeall anghenion cyfathrebu amrywiol unigolion; cynyddu'r ffocws ar gofnodi dewis iaith unigolyn; a sicrhau cynllunio effeithiol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymyrraeth gynnar ar gyfer rheoli anawsterau clyw a chyfathrebu er mwyn sicrhau bod pobl yn cyflawni canlyniadau sy'n llesol iddynt yn gyson. Cefnogi'r gwaith o weithredu Mwy na geiriau a darparu'r Cynnig Rhagweithiol – gyda golwg ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol a chefnogi grwpiau blaenoriaeth, sy'n cynnwys pobl ifanc, pobl hŷn a phobl â dementia.

# Gofal Clyw GIG Cymru: Y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol

## Sefyllfa

1. Mae gwasanaethau awdioleg wedi datblygu'n wahanol yng Nghymru, gyda phwyslais ar gadw dinasyddion yn iach a darparu gofal yn nes at y cartref.
2. Mae'r ddarpariaeth awdioleg wedi'i diwygio'n sylweddol, i ddechrau yn dilyn y Prosiect Moderneiddio Gwasanaethau Awdioleg (2002) ac yn fwy diweddar gyda gweithrediad y *Fframwaith Gweithredu* (2017) ac uwch-ymarferwyr awdioleg sy'n rhoi diagnosis, yn trin ac yn rheoli pobl mewn gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. Ategir hyn gan ddatblygiad modelau a llwybrau gwasanaeth diwygiedig a newydd (Atodiad A) gan Lywodraeth Cymru, GIG Cymru ac AaGIC.
3. Mae'r datblygiadau wedi cynnwys gweithredu llwybr gyrfaoedd gwyddonol gyda hyfforddiant wedi'i gomisiynu ar draws y rhychwant o yrfaoedd, o brentisiaethau a chymwysterau tystysgrifau uwch ar gyfer ymarferwyr cyswllt, y rhaglen hyfforddi ymarferwyr (PTP) a'r rhaglen hyfforddi gwyddonwyr (STP), yr hyfforddiant gwyddonol arbenigol uwch, y rhaglen hyfforddi ymarferwyr rhan-amser a'r Hyfforddiant Tystysgrif Uwch i Awdiolegwyr Cyswllt i ddatblygu pobl i ddod yn Ymgynghorwyr Clinigol Gwyddonol. Mae hyn yn sicrhau bod gennym weithlu awdioleg i gyflawni'r *Fframwaith Gweithredu*.
4. Gan adeiladu ar gynlluniau strategol Llywodraeth Cymru a'r *Fframwaith Gweithredu*, mae'r ffocws ar uwchsgilio'r gweithlu, ymwreiddio awdioleg mewn gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, arddel Safonau Ansawdd Awdioleg GIG Cymru ac archwilio offer i wella profiad a chanlyniadau cleifion a lleihau'r galw am nyrsys cymunedol, meddygon teulu a gwasanaethau ENT arbenigol mewn ysbytai.
5. Mae nifer yr awdiolegwyr sydd wedi ennill cymwysterau uwch ychwanegol a thimau awdioleg sydd wedi datblygu eu sgiliau ymhellach wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn wedi galluogi newid sylweddol i ddarparu gwasanaethau awdioleg mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, mae angen i ni fynd ymhellach yn gynt. Mae angen i aelodau'r gweithlu awdioleg weithio ar frig eu trwyddedau i gyflawni'r egwyddorion darbodus sy'n sail i gynlluniau strategol Llywodraeth Cymru. Mae awdioleg mewn sefyllfa ddelfrydol i ryddhau capasiti nyrsys cymunedol, meddygon teulu ac adrannau ENT ac i leihau amseroedd aros.
6. Bydd GIG Cymru mewn cydweithrediad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn arwain grŵp gweithlu i ddatblygu cynllun gweithlu a fydd yn galluogi byrddau iechyd i gynllunio gwasanaethau'n briodol, gan wybod bod staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol mewn lle i ddarparu'r gwasanaethau, heddiw ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi ehangu'r gwasanaethau ymhellach o glystyrau gofal eilaidd i glystyrau gofal sylfaenol, yn unol â'n cynlluniau strategol (y *Fframwaith Gweithredu*, y Model Gofal Sylfaenol, *Cymru Iachach ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu*).
7. Mae'r *Ystadegau iechyd synhwyraidd (gofal llygaid a chlyw)* yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, (Atodiad B) Iechyd synhwyraidd (ystadegau gofal llygaid a chlyw): Ebrill 2019 i Mawrth 2021 | LLYW.CYMRU ac maent yn crynhoi perfformiad allweddol a mathau eraill o ddata sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau awdioleg yng Nghymru.
8. Mae'r data demograffig ar gyfer Cymru (Atodiad B) yn disgrifio'r boblogaeth bresennol yng Nghymru a'r boblogaeth yn y dyfodol. Mae ystadegau gan y BAA, AHCS ac is-arbenigedd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, adrannau ENT, a'r RNID a'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn rhagweld cynnydd sylweddol mewn problemau clyw, sy'n gysylltiedig â phoblogaeth fwy a charfan o gleifion sy'n gynyddol oedrannus. Mae'r data hefyd yn disgrifio'r sefyllfa bresennol ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau awdioleg ar draws gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd. I grynhoi, mae'r ystadegau (Atodiad B) yn dangos bwlch cynyddol rhwng y galw a'r capasiti.

9. Bu Bwrdd y *Fframwaith Gweithredu* yn goruchwylio datblygiad a gweithrediad sawl llwybr a phrosiect, gan gynnwys:

- Datblygiad llwybrau GIG Cymru ar gyfer y Llwybr Rheoli Cwyr Clustiau.
- Datblygiad Llwybr sgrinio'r clyw i blant ifanc yn yr ysgol GIG Cymru.
- Ehangu gwasanaethau awdioleg i ofal sylfaenol a rôl newydd estynedig y pwynt cyswllt cyntaf, sef yr uwch-ymarferwyr awdioleg, gan fynd â'r gwaith oddi wrth nyrsys cymunedol a meddygon teulu.
- Datblygu Safonau Ansawdd GIG Cymru ychwanegol ar gyfer tinitws, gwasanaethau dyfeisiau mewnblanadwy festibwlar a chlywedol a throsglwyddo llwybrau clyw, tinitws a festibwlar o adrannau ENT i wasanaethau awdioleg.
- Datblygu gwasanaethau asesu clyw i bobl sy'n cael eu gweld gan wasanaethau asesu'r cof yr amheuir bod ganddynt ddementia.

Bydd y Bwrdd Awdioleg, olynydd Bwrdd y *Fframwaith Gweithredu*, dan gadeiryddiaeth Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru, bellach yn llywio'r gwaith gweithredu ledled Cymru. Mae llawer mwy y gellir ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau awdioleg GIG Cymru yn parhau i fod yn addas i'r diben a'u bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar flaen y gad i ddinasyddion.

## Uchelgais

10. I gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol, mae cyflawni'r prif flaenoriaethau'n alluogwr allweddol i ymwreiddio amcanion cynlluniau strategol Llywodraeth Cymru. Mae ein *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol* y cytunwyd arno'n genedlaethol, gyda'r ffiniau wedi'u dileu, yn caniatáu i'r ffocws fod ar ryddhau capasiti mewn rhannau eraill o'r GIG a darparu gofal priodol ac amserol er mwyn i gleifion gael y profiad a'r canlyniadau gorau posibl.



## Gweledigaeth i'r dyfodol

11. Mae'r angen yn fwy nag erioed i wasanaethau awdioleg barhau i ddatblygu, er mwyn sicrhau eu bod yn dal i allu ehangu i fodloni anghenion y boblogaeth. Bydd angen rhaglen barhaus o newid, arloesi a gwella ar gyfer y newidiadau technolegol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, a'r cynnig ymyrraeth gofal iechyd clyw ei hunan. Rhaid i'r gweithlu awdioleg barhau i ddatblygu a thyfu i sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu i foderneiddio, dylunio a darparu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Mae'r amcanion a ganlyn yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y degawd nesaf:

- Parhau i adeiladu ar gynlluniau'r gweithlu a chyfleoedd i hyfforddi, recriwtio a datblygu gweithlu awdioleg hyfedr iawn ar draws y llwybr gyrfa o Gynorthwywyr i Ymgynghorwyr. Bydd hyn yn cynnwys camau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol a bydd yn sicrhau bod gennym weithlu digonol, sy'n addas i'r dyfodol.
- Datblygu rôl a chwmpas ymarfer aelodau'r gweithlu awdioleg fel y gallant barhau i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n cyfrannu at weithlu ehangach GIG Cymru a gweithredu ar frig eu trwydded/cofrestriad. Mae cefnogi'r gweithlu awdioleg i ennill cofrestriad proffesiynol yn amcan allweddol mewn perthynas â chyflawni yn erbyn y flaenoriaeth hon sy'n canolbwyntio ar safonau proffesiynol, galluogi ailddyluniad y gweithlu drwy estyn y cwmpas ymarfer, rhyddhau'r capasiti ar gyfer nyrsys cymunedol, meddygon teulu ac adrannau ENT yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, gan gefnogi'r broses o alluogi Gwyddonwyr/Seicolegwyr Clinigol i ddefnyddio Cyfarwyddydau Grwpiau Cleifion, ac ystyried y cyfleoedd ar gyfer ymarfer rhagnodi annibynnol.
- Datblygu arweinwyr ym maes awdioleg i hyrwyddo a datblygu'r proffesiwn gyda mynediad at raglenni arweinyddiaeth (Cymrodoriaethau) ar y cyd ag AaGIC, a fydd yn helpu i wella'r gwasanaethau presennol a hysbysu polisïau a chanllawiau yn y dyfodol.
- Gwella mynediad i gefnogi'r gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â'r anghenion hysbys nas diwallwyd yn y boblogaeth, gan gynnwys ymwreiddio rôl uwch-ymarferwyr awdioleg sy'n bwynt cyswllt cyntaf, sy'n rhan annatod o'r Clystyrau, i leihau problemau clyw pobl a darparu modelau gwasanaeth newydd, er enghraifft, rheoli cwyr clustiau.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymyrraeth gynnar ar gyfer rheoli anawsterau clyw a chyfathrebu er mwyn lleihau effaith a datblygiad cyflyrau iechyd eraill a chynnal lles pobl.
- Parhau i ddatblygu ac adolygu a moderneiddio llwybrau clinigol ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth awdioleg i sicrhau'r gwerth gorau, mynediad teg, ac integreiddio â darpariaeth a systemau gofal iechyd eraill ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys llwybrau o'r cam sgrinio i'r gwasanaeth mewnblaniadau clywedol arbenigol trydyddol – gan adeiladu ar y rhaglenni sgrinio clyw presennol (e.e. sgrinio wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sy'n defnyddio llwybrau asesu'r cof, sgrinio clyw babanod yn gyffredinol, a sgrinio plant ifanc yn yr ysgol) er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn addas i'r diben i ateb anghenion iechyd datblygol plant ac oedolion.
- Gwella mynediad a datblygiad gwasanaethau diagnostig awdioleg mewn partneriaeth â phroffesiynau gwyddor gofal iechyd a gofal iechyd i hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau diagnostig.
- Hyrwyddo dull hunanreoli ar gyfer gofal clust a'r clyw gan fod gan bobl rôl allweddol i warchod eu hiechyd eu hunain, drwy ddewis triniaethau priodol a rheoli cyflyrau hirdymor. Mae hunanreoli yn galluogi pobl i gymryd camau i adnabod, trin a rheoli eu hiechyd eu hunain. Gallant wneud hynny'n annibynnol neu mewn partneriaeth â'r system iechyd a gofal cymdeithasol.
- Adeiladu ar y dull cydweithredol yn y *Fframwaith Gweithredu* i gynnal a datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Datblygu ymhellach rôl Awdiolegwyr Cynorthwyol (gan gynnwys rôl gynorthwyol) a gwirfoddolwyr awdioleg i gefnogi hunanreoli a darparu cefnogaeth gan gymheiriaid. Gweithio gyda'r partneriaid hyn i ddatblygu gwasanaethau o safon uchel a gwella mynediad.

- Sicrhau bod gwasanaethau awdioleg GIG Cymru yn gallu cynnig y technolegau a'r ymyriadau diweddaraf i bobl â cholled clyw, gan weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gefnogi'r pris gorau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr ôl-troed carbon, y symud i ffwrdd oddi wrth fatris tafladwy, sicrhau bod mwy o ddyfeisiau y gellir eu gwefru ar gael sy'n galluogi rhaglennu ac addasu o bell, gan leihau'r angen i bobl fynychu clinigau awdioleg mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd.
- Adeiladu ar y cynnydd a wnaed gyda'r *Fframwaith Gweithredu* i ddatblygu systemau rheoli cleifion awdioleg fel y gallant integreiddio â'r systemau o'u cwmpas. Bydd hyn yn cynnwys rhyngweithio â Rhaglen defnyddwyr gwasanaethau GIG Cymru i wella'r mynediad a'r gefnogaeth i bobl.
- Sicrhau bod dinasyddion yr amheuir bod ganddynt ddementia a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu hasesu ar gyfer anawsterau clyw a chyfathrebu ac yn cael eu cefnogi i gael mynediad at ymyriadau a'u defnyddio, gan gynnwys ystyriaethau penodol ynghylch anghenion o ran y Gymraeg. Sicrhau bod amgylcheddau gwrando mewn cartrefi gofal yn cefnogi cyfathrebu effeithiol a bod y staff yn ymwybodol o fyddardod ac yn gallu cefnogi pobl i barhau i gysylltu â'r byd o'u cwmpas.
- Parhau i asesu a gwella ansawdd gwasanaethau awdioleg drwy weithredu *Strategaeth Ansawdd Awdioleg Cymru*. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a diwygio'r *Safonau Ansawdd Awdioleg* er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn uchelgeisiol. Parhau i ddarparu sicrwydd ansawdd drwy archwiliadau safonau ansawdd cenedlaethol a dulliau eraill megis meincnodi dangosyddion ansawdd gwasanaethau allweddol. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiad o Fesurau i Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Awdioleg Pediatrig yng Nghymru (2024).
- Datblygu capasiti a gallu ymchwil aelodau'r gweithlu awdioleg i sicrhau y gallant gyfrannu at y sail dystiolaeth glinigol. Adeiladu ar strategaeth ymchwil awdioleg Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Awdioleg Cymru i gyflawni'r amcan hwn, gan sicrhau bod blaenoriaethau ymchwil yn cyd-fynd â rhaglenni academaidd, er enghraifft Meistr Gwyddoniaeth (MSc) a Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr.
- Defnyddio egwyddorion gofal iechyd ar sail gwerth i ddosbarthu adnoddau awdioleg fel eu bod yn cael yr effaith orau bosibl ar gyfer dinasyddion ledled Cymru. Cwestiynu sut y gwnawn bethau i lywio'r trawsnewid, i foderneiddio ac ail-ddylunio gwasanaethau er mwyn darparu canlyniadau o safon uchel, gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i unigolion.



| Blaenoriaethau | Cysylltiadau â dogfennau strategol | Cleifion/teuluoedd/ gofalwyr | Y Gweithlu Awdioleg | Gofal Sylfaenol a Chymunedol Awdioleg | Gofal eilaidd awdioleg ac adrannau ENT |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Cynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru:** Cyd-fynd â *Cymru Iachach*, sy'n seiliedig ar egwyddorion darbodus, y *Model Gofal Sylfaenol* i Gymru, sy'n seiliedig ar y Rhaglen Datblygu Clystyrau, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n seiliedig ar y saith nod llesiant. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol<br>Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; Cynllun Gweithredu LHDTC+; a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft<br>Mwy na Geiriau | Mynediad uniongyrchol amserol at wasanaethau yn agos at y cartref a gweld yr unigolyn iawn y tro cyntaf, gan gynnwys gwella'r capasiti i weld nyrs gymunedol neu feddyg teulu pan fo angen. | Aelodau'r gweithlu awdioleg yn gweithio ar frig eu trwydded. | Y ddarpariaeth awdioleg mewn gofal sylfaenol a chymunedol.<br>Atal atgyfeiriadau diangen at feddygon teulu ac adrannau ENT mewn ysbytai. | Gostyngiad mewn amseroedd aros.<br>Symud llwybrau a gweithgaredd o adrannau ENT i wasanaethau awdioleg gan gynnwys gweithredu atgyfeiriadau anfeddygol awdioleg am MRI. |
| 2. **Y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw ag amhariad ar y clyw neu â cholled clyw:** Adeiladu ar yr argymhellion er mwyn parhau i ymwreiddio iechyd a lles. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Iechyd<br>Mwy na Geiriau<br>Cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol a Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd | Profiad a chanlyniadau gwell. | Gweithlu wedi'i uwchsgilio fel y gellir asesu, rhoi diagnosis, triniaeth a rheoli awdioleg. | Ffocws ar awdioleg mewn gofal sylfaenol a chymunedol | Ffocws rhannu gofal ar gyfer awdioleg mewn gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. |
| 3. **Safonau Ansawdd Awdioleg:** Adeiladu ar y safonau a pharhau i ymwreiddio offer gwella ansawdd ac archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaethau. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Mynediad at ofal teg a diogel. | Cyfleoedd hyfforddi, mentora a mynd ar leoliad i ddatblygu dysgu a sgiliau ymhellach. | Llywodraethu clinigol wedi'i ymwreiddio ym mhob llwybr. | Llywodraethu clinigol wedi'i ymwreiddio ym mhob llwybr.<br>Cynhyrchu ar y cyd i ddarparu llwybrau. |
| 4. **Y Gweithlu Awdioleg:** Adeiladu ar gynlluniau i barhau i gynyddu nifer yr awdiolegwyr sy'n ennill cymwysterau uwch, gwella sgiliau timau awdioleg, datblygu prosiectau mentora, lleoliadau a chymrodoriaeth gydag AaGIC. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol<br>Mwy na Geiriau<br>Cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol a Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd | Gweithlu sy'n wybodus ynghylch y safonau hygyrchedd, cyfathrebu priodol/ BSL ac sy' cyfeirio at gymorth priodol parhaus. | Cyfleoedd datblygu gyrfa, cynllunio olyniant, datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu ac arweinwyr. | Rhannu gofal rhwng gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. | Cleifion yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer ymyrraeth arbenigol dim ond pan fydd yn angenrheidiol yn glinigol. |

| Blaenoriaethau | Cysylltiadau â dogfennau strategol | Cleifion/teuluoedd/ gofalwyr | Y Gweithlu Awdioleg | Gofal Sylfaenol a Chymunedol Awdioleg | Gofal eilaidd awdioleg ac adrannau ENT |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. **Awdioleg a Chlystyrau Gofal Sylfaenol:** Adeiladu ar yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a fydd yn llywio diagnosis, triniaeth a'r gwaith o reoli awdioleg. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Mynediad amserol uniongyrchol at wasanaethau awdioleg yn nes at y cartref. | Strwythurau GIG Cymru clir yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn galluogi arweinyddiaeth gadarn o'r gwasanaethau a ddarperir. | Trefniadau gweithio cadarn wedi'u cydgysylltu â Chlystyrau ar gyfer darparu modelau a llwybrau gwasanaeth awdioleg newydd. | Capasiti'n cael ei ryddhau i ateb y galw am wasanaethau arbenigol i reoli cleifion a gweithio ar frig eu trwydded. |
| 6. **Awdioleg a Dementia:** Adeiladu ar y Strategaeth Dementia, parhau i ymchwilio a diweddaru'r sail wybodaeth . | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol<br>Mwy na Geiriau | Gweithlu gwybodus a chyfeirio at wasanaethau priodol a chymorth parhaus. | Cyfleoedd hyfforddi ac ymchwil i sicrhau ansawdd. | Datblygu'r gwasanaeth a ddarperir i ateb y cynnydd yng nghyffredinrwydd dementia. | |
| 7. **Hunanreoli:** Dinasyddion i gael rôl allweddol, sef gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan ddewis triniaethau a thechnolegau priodol a rheoli cyflyrau hirdymor. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Hunanofal wedi'i gefnogi gan lenyddiaeth/taflenni i ddeall gofal clyw.<br>Galluogi pobl i fyw'n annibynnol ac i gyflawni eu llawn botensial yn addysgol, o ran cyflogaeth ac yn gymdeithasol. | | Mynediad at asesiad, apwyntiad dilynol ac ailasesiad a rhagnodi cymorth/cyfarpar clyw mewn modd amserol. | |
| 8. **Y Trydydd Sector:** Awdiolegydd Cynorthwyol (gan gynnwys rôl swyddog cyswllt), a lle y bo'n briodol, gwirfoddolwyr â rôl allweddol yn helpu pobl i ddeall eu diagnosis, gofalu am gymhorthion clyw ac yn eu cyfeirio at rwydweithiau cymorth i wella canlyniadau cleifion a'u profiad o lywio'u camau nesaf. Datblygu rôl gwirfoddolwyr awdioleg i gefnogi hunanreoli a darparu cefnogaeth gan gymheiriaid i sicrhau bod cleifion yn cael y canlyniad gorau bosibl. | | Cleifion yn profi cyfathrebu priodol ac yn cymryd rhan yn y penderfyniadau am eu gofal eu hunain a sut i fynd drwy'r camau nesaf. | Cysylltiadau agosach â thimau gofal sylfaenol a chymunedol.<br>Gofal cleifion wedi'i lunio ar y cyd rhwng gweithwyr proffesiynol a chleifion. | Llai o risg o ddigwyddiadau difrifol a niwed i gleifion. | Gweithio ar y cyd ar draws y proffesiynau i sicrhau bod y llwybrau'n cael eu hintegreiddio'n esmwyth. |

| Blaenoriaethau | Cysylltiadau â dogfennau strategol | Cleifion/teuluoedd/ gofalwyr | Y Gweithlu Awdioleg | Gofal Sylfaenol a Chymunedol Awdioleg | Gofal eilaidd awdioleg ac adrannau ENT |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. **Seilwaith:** Data TG a Gwasanaethau Digidol: Adeiladu ar gynlluniau i wella systemau a phrosesau a chasglu a dadansoddi data ynghylch yr effaith ar ansawdd bywyd ac ar economïau lleol os na fydd problemau clyw yn cael eu canfod yn gynnar, i hysbysu'r ddarpariaeth awdioleg a darparu gofal a rennir mewn gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. Sicrhau y gall gwasanaethau awdioleg GIG Cymru gynnig y technolegau a'r ymyriadau diweddaraf i bobl â cholled clyw (gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg). Adeiladu ar y cynnydd a wnaed gyda'r *Fframwaith Gweithredu* i ddatblygu systemau rheoli cleifion awdioleg fel y gallant integreiddio â'r systemau ehangach o'u cwmpas (a'u bod yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau mewn cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol a Mwy na geiriau). Gwerthuso a manteisio ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn Awdioleg. Sicrhau bod y gwasanaethau arbenigol yn briodol o ran maint ac ansawdd i gefnogi'r blaenoriaethau hyn yng nghyfleusterau pob lleoliad/ystad iechyd. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol<br>Mwy na Geiriau<br>Cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol a Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd | Casglu gwybodaeth cleifion yn ddiogel i hysbysu gofal a rennir a gwella profiadau a chanlyniadau.<br>Gwefannau byrddau iechyd i gyflwyno gwybodaeth gyson am y ddarpariaeth awdioleg. | Offer data a digidol TG i hwyluso gofal cleifion ar draws yr holl lwybrau. | Offer data TG a digidol i hwyluso'r gofal o gleifion ar draws yr holl lwybrau. | Offer data TG a digidol i hwyluso'r gofal o gleifion ar draws yr holl lwybrau. |

| Blaenoriaethau | Cysylltiadau â dogfennau strategol | Cleifion/teuluoedd/ gofalwyr | Y Gweithlu Awdioleg | Gofal Sylfaenol a Chymunedol Awdioleg | Gofal eilaidd awdioleg ac adrannau ENT |
|---|---|---|---|---|---|
| 10. **Cyfathrebu:** Adeiladu ar Safonau Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu hygyrch a datblygu negeseuon allweddol i hysbysu ymgyrchoedd yn y dyfodol i gynghori dinasyddion. Parhau i hyfforddi timau awdioleg a gweithlu ehangach GIG Cymru i ddeall anghenion cyfathrebu amrywiol unigolion. Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymyrraeth gynnar ar gyfer rheoli anawsterau clyw a chyfathrebu er mwyn sicrhau bod pobl yn cyflawni canlyniadau sy'n llesol iddynt yn gyson. | Cysylltiad â Cymru Iachach<br>Cysylltiad â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol<br>Mwy na Geiriau<br>Safonau'r Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol<br>Cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol a Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd | Cleifion yn profi cyfathrebu effeithlon ac effeithiol ac yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd eu hunain. | | | |

## Y Cyd-destun

### Gwasanaethau Awdioleg yng Nghymru

12. Mae gan bedair gwlad y DU wahanol strwythurau a ffyrdd o ddarparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyfeiriad polisi ar gyfer darparu gwasanaeth awdioleg cynaliadwy, integredig, a theg i ddinasyddion a bydd *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol* GIG Cymru yn llywio'r gwaith o ddiwygio awdioleg a'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

13. Mae ansawdd gwasanaethau awdioleg, yn enwedig y rhai i blant, o ddiddordeb mawr ledled y DU, gan gydnabod pwysigrwydd canfod colled clyw yn gynnar a'i reoli'n effeithiol. Cynhyrchwyd argymhellion gan adolygiad yng Nghymru (2024) o'r mesurau i wella sicrwydd ansawdd gwasanaethau awdioleg i blant, ac maent wedi dylanwadu ar gynnwys ein *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol*.

14. Rhaid i asesiad clinigol awdioleg fodloni Safonau Ansawdd GIG Cymru; mae pob dinesydd yn gymwys i gael asesiadau clyw wedi'u hariannu gan y GIG ac, os yw'n briodol, ymyriadau gan gynnwys cymhorthion clyw, a monitro gofal clyw parhaus yn ogystal.

15. Mae GIG Cymru'n cydnabod rôl bwysig awdiolegwyr sydd eisoes yn chwarae eu rhan i leihau'r baich ar nyrsys cymunedol, meddygon teulu ac adrannau ENT. Mae'r modelau gwasanaeth newydd yn galluogi awdiolegwyr i leihau ymhellach atgyfeiriadau a'r galw am y gwasanaethau hyn, ac mae gwella'r cysylltiadau gwaith rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd yn golygu bod modd rhannu gofal cleifion a gwella'r canlyniadau i gleifion.

16. Mae'r gwasanaeth yn galluogi timau awdioleg i asesu anghenion clyw a chyfathrebu pobl ac i benderfynu a allai ymyriadau technolegol neu ymyriadau eraill helpu pobl i fyw mor annibynnol ag sy'n ymarferol bosibl a chyflawni eu llawn botensial yn addysgol, o ran cyflogaeth ac yn gymdeithasol. Gallai'r asesiad gynnwys amrywiaeth o brofion neu werthusiadau diagnostig, ac mae'r ymyriadau'n amrywiol. Fel un o wasanaethau'r GIG, bydd cymhorthion clyw yn parhau i fod am ddim neu ar gael i'w llogi ledled Cymru.

17. Mae timau awdioleg yn darparu gwasanaethau adfer a chymhwyso arbenigol ac yn atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill ac mae ganddynt gysylltiadau agos â gwasanaethau sy'n darparu cymorth ychwanegol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Bydd canllawiau lleol a chenedlaethol yn parhau i gael eu datblygu i alluogi atgyfeirio cyson i bobl.

18. Rôl awdiolegwyr yw asesu a rheoli anghenion clyw a chyfathrebu pobl sydd ag anawsterau clyw mewn modd holistaidd, gan gynnwys rhagnodi a darparu cymhorthion clyw a/neu ddyfeisiau technolegol eraill. Mae awdiolegwyr GIG Cymru wedi'u hyfforddi'n drylwyr i asesu a rheoli annormaleddau clyw a rhai cysylltiedig. Bydd angen iddynt weithiau atgyfeirio cleifion at eu meddygon teulu fel y gellir ystyried meddyginiaeth wedi'i rhagnodi, neu weithiau at adran ENT ar gyfer ystyriaeth feddygol neu lawdriniaethol; fodd bynnag, mae gan awdioleg rôl arwyddocaol yn y gwaith o asesu a rheoli cyflyrau clyw, tinitws a chydbwysedd penodol. Bydd awdiolegwyr, wedi'u hategu gan uwch-ymarferwyr awdioleg mewn Clystyrau gofal sylfaenol, yn galluogi ymhellach atgyfeiriadau mwy priodol at weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol pan fo hynny'n briodol.

#### Ymarferwyr Cyffredinol

19. Mae adolygiad o awdioleg a modelau gwasanaeth gofal eilaidd traddodiadol wedi amlygu ffyrdd mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau drwy weithredu llwybrau integredig di-dor, sy'n cynnwys rhannu gofal rhwng gofal sylfaenol a chymunedol a gofal eilaidd. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod meddygon teulu o dan bwysau sylweddol i ymdopi â'r galw presennol, ac felly, i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn galw a ragwelir yn y dyfodol, bydd y gwaith o ddiwygio awdioleg sydd ar y gweill yn sicrhau bod yr aelod iawn o'r gweithlu yn asesu'r claf yn y lleoliad mwyaf priodol. Bydd uwch-ymarferwyr awdioleg mewn Clystyrau yn helpu i ryddhau adnodd gwerthfawr meddygon teulu i ateb galwadau eraill ar eu hamser.

### Awdiolegwyr sy'n gweithio gydag ENT mewn gofal eilaidd

20. Mae awdiolegwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau ysbyty yn darparu ystod o wasanaethau profi diagnostig i gleifion ac maent yn cydweithio mewn partneriaeth agos â'r rhai sydd o dan ofal ENT. Bu newid cynyddol hefyd mewn gweithgaredd clinigol wrth i gleifion â symptomau unochrog, tinitws neu gyflyrau cydbwysedd penodol gael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol neu eu brysbennu i Awdioleg yn hytrach nag i ENT. Bydd symud y gweithgaredd hwn yn parhau i ryddhau amser gwerthfawr yn ENT ar gyfer acPenaethiaid Gwasanaeth ion/llawdriniaethau mwy cymhleth a bydd yn helpu i ateb peth o'r galw yn sgil diffyg meddygon – tuedd sy'n golygu bod gofyn i rolau awdioleg esblygu.

21. Yn yr adolygiad o adrannau a modelau gwasanaeth ENT mewn gofal eilaidd, amlygwyd ffyrdd mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau drwy weithredu llwybrau integredig di-dor, gan gynnwys rhannu gofal. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos diffyg ystadau a chyfarpar a'r gweithlu ENT yn cael ei hyfforddi ar gyfer recriwtio yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r twf mewn galw a ragwelir; felly, mae'n hanfodol sicrhau bod yr aelod iawn o'r gweithlu yn asesu cleifion yn y lleoliad mwyaf priodol.

22. Yn ôl Crynodeb Gweithredol o Gyfrifiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) ar weithlu is-arbenigedd ENT (RCS-crynodeb o'r adroddiad):
    - Mae 57 o swyddi ymgynghorwyr ENT; 1 swydd wag (h.y. heb ei llenwi gan locwm).
    - Mae data'r cyfrifiad yn awgrymu bod angen swyddi ychwanegol i ateb y galw sy'n codi ond nid yw'n nodi'r nifer ar gyfer y gwledydd y tu hwnt i Loegr.
    - Fel amcangyfrif, ar gyfer y rhan fwyaf o feintiau unedau ENT, ceir 1.86 o swyddi cyfwerth ag amser cyflawn fesul 100,000 o'r boblogaeth. Adroddodd Cymdeithas Otorhinolaryngolegwyr Prydain y data cyfwerth ag amser cyflawn i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin y DU ddiwethaf yn 2006. Mae'r swyddi cyfwerth ag amser cyflawn yn GIG Cymru ar gyfer Ymgynghorwyr ENT yn ffafriol o'u cymharu â'r nifer a nodwyd ar y pryd.
    - Mae unedau ENT yn dibynnu ar weithwyr proffesiynol anfeddygol h.y. ymarferwyr nyrsio sy'n gweithio mewn rolau estynedig i gefnogi amrywiaeth o gyflyrau gan gynnwys gofal clywedol, asesiadau ar gyfer tonsilectomïau a gofal wedi llawdriniaeth ar gyfer clustyddiaeth a rhinoleg. Mae nifer yr ymarferwyr nyrsio mewn byrddau iechyd yn amrywio o 0.8 swydd cyfwerth ag amser cyflawn i 5, ond fe'u cydnabyddir fel adnodd gwerthfawr.
    - Mae mentrau rhestrau aros ENT wedi'u cynnal ar draws yr holl fyrddau iechyd er mwyn canfod atebion mewnol a threfnu contractau allanol i fynd i'r afael â'r galw a'r capasiti.

### Gwasanaeth Mewnblaniadau Awdioleg (Mewnblaniadau Cochlear a Mewnblaniadau Clyw Dargludiad Asgwrn)

23. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn parhau i fwrw ymlaen â newid ym manyleb y model gwasanaeth i ddarparu Gwasanaethau Mewnblaniad Cochlear a Gwasanaethau Dargludiad Asgwrn mewn un Ganolfan yn y De, gyda model prif ganolfan a lloeren i alluogi cleifion i gael mynediad at wasanaethau dargludiad asgwrn yn rhanbarthol ac yn gyfartal, yn agosach at eu cartrefi. Bydd yr ail Ganolfan yn y Gogledd yn aros yn ddigyfnewid, gan alluogi cleifion i barhau i gael mynediad at wasanaethau dyfeisiau mewnblaniad awdioleg arbenigol yn gyfartal drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

### Awdioleg a sgrinio clyw babanod

24. Mae Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn parhau i ganfod babanod gyda cholled clyw a fydd yn elwa ar gael diagnosis ac ymyrraeth gynnar, i helpu datblygiad eu lleferydd a'u hiaith. Mae Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn darparu cymorth a gwybodaeth i rieni a gofalwyr yn unol â Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd.



25. Gyda chefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru ac Awdioleg, mae Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn ymchwilio i newidiadau i'r model sgrinio presennol fel bod babanod nad ydynt yn derbyn ymateb clir mewn un glust neu yn y naill glust a'r llall yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad arbenigol, lle nad yw'r cyflwr targed presennol yn cynnwys colled clyw unochrog. Fel rhan o waith sydd wedi'i hen sefydlu i sicrhau ansawdd asesiadau diagnostig gwasanaethau awdioleg plant, bydd Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn parhau i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid ac yn asesu cydymffurfiaeth â dangosyddion perfformiad allweddol, gan rannu'r canlyniadau ar gyfer pob bwrdd iechyd ac ar gyfer Cymru gyfan.

26. Bydd newidiadau Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn cael effaith ar nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau awdioleg plant a chydnabyddir y bydd hyn yn faich ychwanegol ar wasanaeth sydd eisoes o dan bwysau.

27. Mae'r newidiadau i Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn cael eu dylunio i fanteisio i'r eithaf ar y gallu i gynhyrchu canlyniadau sgrinio dibynadwy gan barhau â'r trefniadau sgrinio cyfleus yn yr ysbyty yn ystod y cyfnod ôl-enedigol cynnar. Byddai'r newid yn arwain at gynnydd yng ngweithgaredd clinigau cymunedol y gwasanaeth, ar gyfer y babanod hynny na ellir eu rhyddhau tra byddant yn yr ysbyty. Disgwylir y bydd nifer o'r babanod a atgyfeirir yn elwa ar y newidiadau i brosesau asesu Awdioleg, a fydd yn cefnogi asesu effeithiol a dibynadwy heb ofyniad i gwblhau prawf Ymateb Clywedol Coesyn yr Ymennydd (ABR) hirfaith ar gyfer yr holl fabanod a atgyfeirir. Mae'r newid hwn i fethodoleg asesu diagnostig yn cyd-fynd â chanllawiau diweddaraf y BAA.

## Dadansoddiad

28. Mae'r *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol*, sy'n adeiladu ar y *Fframwaith Gweithredu*, yn cael ei groesawu gan yr holl randdeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys y trydydd sector, a ddarparodd gymorth gwerthfawr wrth ymchwilio a dadansoddi gwybodaeth i gefnogi safbwynt polisi Cymru. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos y byddai symud i unrhyw ddarparwr cymwys ar gyfer gofal clyw, gan gynnwys cymhorthion clyw a brysbennu ehangach, yn symudiad i ffwrdd oddi wrth gynlluniau strategol Cymru, ni fyddai'n cyflawni Safonau Ansawdd GIG Cymru y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a byddai'n mynd yn groes i'r argymhellion yn y *Fframwaith Gweithredu*. Cefnogir hyn gan y Trydydd Sector, y BAA a'r AHCS.

29. Mewn adroddiad diweddar gan yr RNID ar gyffredinrwydd byddardod a cholled clyw (2024), roedd yr RNID yn cefnogi'n llawn hyfforddiant proffesiynol i uwchsgilio awdiolegwyr cymwys ymhellach gyda'r safon o addysg a hyfforddiant a llywodraethu a ddisgwylir gan GIG Cymru i ddarparu cymhorthion clyw a gofal iechyd clyw ehangach. Yn ogystal, cyhoeddodd y BAA ddatganiad sefyllfa '*The Future of NHS Adult Hearing Loss Management*' (2024) yn cefnogi darpariaeth awdioleg GIG Cymru, gyda seilwaith gwasanaethau, llywodraethu a llwybrau cydgysylltiedig yn darparu darpariaeth awdioleg deg a chyson yn ddiogel, yn effeithiol ac am ddim yn y pwynt mynediad i bob dinesydd.

### Diwygio Awdioleg

30. Drwy weithdai ymchwilio cenedlaethol a lleol, casglwyd adborth a thystiolaeth i hysbysu'r dull yn y dyfodol a datblygu'r prif flaenoriaethau, sy'n cefnogi'r model gwasanaeth awdioleg pwynt cyswllt cyntaf arloesol a lansiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod cyfnod gweithredu'r *Fframwaith Gweithredu*. Mae'r dystiolaeth eisoes yn dangos gostyngiad yn y galw am farn ac ymyrraeth gan ysbytai a llai o alw ar feddygon teulu, nyrsys cymunedol ac adrannau brys. Mae'r naill fwrdd iechyd a'r llall yn parhau i arwain y ffordd a rhannu'r arferion gorau gyda byrddau iechyd eraill y mae disgwyl iddynt ddilyn eu hesiampl. Mae datblygu cynlluniau lleol cadarn ar draws Cymru yn ddull allweddol er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy i wneud yn siŵr bod y gwaith o ddiwygio'r maes awdioleg yn cael ei gynnal a'i gwblhau'n llawn ledled y wlad.

### Awdioleg

31. Mae gwasanaethau awdioleg GIG Cymru yn darparu gwasanaethau diagnostig ac ymyrraeth o safon uchel gydol oes i bobl sydd ag anawsterau clyw ac anawsterau cysylltiedig. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio ar draws y llwybrau a gydol oes, gan gynnwys gwasanaethau sy'n estyn allan i gymunedau lleol yn ogystal â gwasanaethau mewnblaniadau clywedol gofal trydyddol, a ddarperir yn rhanbarthol.

32. Mae adrannau awdioleg GIG Cymru mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu'r gwasanaethau presennol ac yn y dyfodol gan eu bod yn darparu gwerth ychwanegol sylweddol ar draws llwybrau gofal iechyd ehangach. Ceir llwybrau integredig ac atgyfeirio cydgysylltiedig ar draws awdioleg mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd, adrannau ENT, asesiadau o'r cof, MRI (delweddu atseiniol magnetig), gwasanaethau therapi ac atgyfeirio integredig gydag asiantaethau eraill, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac addysg. Mae hyn yn estyn o sgrinio'r clyw i wasanaethau diagnostig, ac adfer drwy gymhorthion clyw a mewnblaniadau cochlear – gwasanaeth gofal clustiau a chlyw Unwaith i Gymru. Yn ogystal, ceir systemau gwybodaeth cleifion integredig rhwng arbenigeddau ar draws GIG Cymru, sy'n hwyluso symud cleifion rhwng gwasanaethau'n ddi-dor ac yn galluogi parhad gofal a chymorth, a monitro parhaus.

33. Mae awdioleg wedi datblygu i ddarparu model gofal sylfaenol a chymunedol blaengar sy'n cyd-fynd â chynlluniau strategol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, sy'n ategu'r gwasanaethau a ddarperir mewn ysbytai. Darperir gofal yn agos at y cartref ac mewn amrywiaeth o gymunedau lleol, a lle y bo'n briodol, yng nghartrefi pobl. Mae dull newydd o ddarparu amgylchedd profi diagnostig arbenigol o fewn unrhyw leoliad yn y gymuned wedi'i brofi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae fan symudol, sy'n cynnwys ystafell gwrthsain arbenigol, wedi bod yn darparu gwasanaethau ers 2024, gan alluogi mwy o bobl i gael mynediad at wasanaethau gofal y glust a chlyw mewn mannau sy'n anodd eu cyrraedd.

34. Fel y disgrifiwyd eisoes, mae'r uchelgais ar gyfer diwygio yn cyd-fynd â chynlluniau strategol Cymru gyfan, sy'n seiliedig ar ddarpariaeth leol a rhanbarthol. Mae'n bwysig deall y bydd y *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol* yn llywio'r ddarpariaeth awdioleg; fodd bynnag, er mwyn cyflawni newid trawsnewidiol, mae angen i'r holl fyrddau iechyd weithredu, gydag adnoddau cynaliadwy yn sail i hynny. Rhaid i randdeiliaid ganolbwyntio ar gyflawni'r prif flaenoriaethau i gyflawni ein huchelgais gyffredinol a sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion ledled Cymru.

35. Mae iechyd a lles yn mynd law yn llaw ac mae gwneud i bob contract gyfrif yn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gwasanaethau priodol ac yn derbyn yr wybodaeth gywir wrth gael mynediad at awdioleg drwy ofal sylfaenol, cymunedol neu eilaidd. Darperir cyngor ar les ac iechyd clyw yn rheolaidd i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau awdioleg:
    - Y gronfa unigrwydd ac ynysigrwydd 2021 i 2024 | GOV.WALES
    - Unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol (cysylltu cymunedau) | LLYW.CYMRU
    - Codymau cleifion mewnol sy'n oedolion: egwyddorion a fframwaith (WHC/2016/022) | LLYW.CYMRU
    - Age Cymru ¦ Tasglu Cenedlaethol Atal Cwympiadau Cymru.

### Cymhorthion clyw

36. Bydd defnyddio, cynnal a chadw, asesu, ailgylchu ac ymchwilio i gymhorthion clyw (gyda ffocws ar ddyfeisiau y gellir eu hailwefru a lleihau'r defnydd o fatris tafladwy) yn helpu i wella profiad a chanlyniadau cleifion ac yn lleihau costau, gan adeiladu eto ar y gwelliannau a wnaed yn sgil y *Fframwaith Gweithredu* a'r ymrwymiadau a nodwyd yng nghynlluniau strategol Llywodraeth Cymru. Bydd cymorth y Trydydd Sector a gwirfoddolwyr yn ategu hyn, sy'n gam ymlaen i'w groesawu yng Nghymru.



37. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, dywedodd 17% o bobl eu bod yn cael anawsterau clyw. Mae'r amcangyfrif hwn o 2021-22 wedi gostwng ychydig ond nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol o gymharu ag amcangyfrifon 2018-19. Mae 30% o'r rhai sy'n dweud bod ganddynt broblemau clyw hefyd yn dweud eu bod yn defnyddio cymorth clyw o leiaf beth o'r amser, sy'n ganlyniad tebyg pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2018-19. Mae 74% o'r rhai sy'n dweud eu bod yn defnyddio cymhorthion clyw yn eu cael am ddim drwy GIG Cymru, mae 25% yn talu'n breifat ac mae'r gweddill yn defnyddio cymysgedd o'r GIG a gwasanaeth preifat.

38. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r defnydd o gymhorthion clyw, yn enwedig mewn cartrefi gofal, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yn addysgol, o ran cyflogaeth ac yn gymdeithasol – nid problem heneiddio yn unig yw anawsterau clyw; mae dyletswydd gofal i sicrhau bod problemau'n cael eu canfod ym mhob oedran, o fabanod i blant sy'n dechrau yn yr ysgol i oedolion ac oedolion hŷn.

## Safonau Ansawdd Awdioleg

39. Mae gwella ansawdd yn hanfodol, ac mae gan awdioleg yr offer priodol sydd eisoes yn effeithiol i gyflawni newid trawsnewidiol. Mae fframweithiau ymchwil a gwerthuso ac archwilio wedi'u cynnwys ym mhob llwybr awdioleg, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd ar y cyd ag adrannau ENT ac eraill ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

40. Mae Safonau Ansawdd Awdioleg GIG Cymru ar gyfer oedolion a phlant yn gyrru'r proffesiwn a'r gwasanaeth i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r Safonau Ansawdd yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn arwain at welliant mesuradwy mewn ansawdd – systemau llywodraethu awdioleg, atebolrwydd a chydweithio er mwyn gallu darparu gwasanaethau cynaliadwy, cyson, teg, diogel ac effeithiol, sy'n atebol i dimau uwch-reolwyr y byrddau iechyd, gyda chydweithio drwy'r Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg a mandad gan Gynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru.

41. Mae gwasanaethau sicr darpariaeth awdioleg GIG Cymru yn gosteffeithiol, yn cynnig gwerth am arian, ac yn darparu darpariaeth system gyfan, gan gynnwys llwybrau cymhleth ar draws gwasanaethau cydgysylltiedig mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac eilaidd, gan hwyluso pontio llyfn i bobl sy'n symud rhwng arbenigeddau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol gydol oes.

42. Bydd Safonau Ansawdd Awdioleg presennol Cymru ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion yn cael eu hestyn i gynnwys gwasanaethau awdioleg a ddarperir mewn gofal sylfaenol gan gynnwys uwch-ymarfer pwynt cyswllt cyntaf a gwasanaethau rheoli cwyr i gyd-fynd â'r Llwybr Rheoli Cwyr Clust (WHC/2020/014) a chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal NG98 ar golled clyw.

43. Amcangyfrifir y bydd 4% o boblogaeth Cymru bob blwyddyn yn cael eu heffeithio gan gwyr clust problemus y bydd angen ei waredu. Os na fydd cwyr yn cael ei waredu, bydd yn ac Penaethiaid Gwasanaeth i amrywiaeth o symptomau a all gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd pobl. Amcangyfrifir y byddai cyflwyno gwasanaeth rheoli cwyr dan arweiniad awdioleg yn genedlaethol yn galluogi uwch-ymarferwyr awdioleg i reoli dros 126,000 ymgyflwyniad o gwyr clust problemus bob blwyddyn, gan ryddhau capasiti nyrsys cymunedol a meddygon teulu a lleihau atgyfeiriadau at adrannau ENT. Yn ogystal, mae data gwasanaethau sefydledig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Caerdydd yn dangos, pan estynnir awdioleg pwynt cyswllt cyntaf i'w ddarparu mewn clystyrau gofal sylfaenol, y byddai 99,000 a mwy o gleifion yn cael eu gweld gan yr ymarferwyr bob blwyddyn, gan ryddhau capasiti meddygon teulu ymhellach a lleihau'r atgyfeiriadau at adrannau ENT.

## Awdioleg a Dementia

44. Mae problemau clyw, tinitws a chydbwysedd yn gyflyrau iechyd pwysig a chyffredin sy'n arwain at ansawdd bywyd gwaeth os na chânt eu rheoli, ac maent yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol a lles cyffredinol unigolyn; fodd bynnag, ceir corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod cysylltiad annibynnol rhwng colled clyw a dementia. Nododd comisiwn diweddar gan y Lancet mai colled clyw yw'r ffactor risg y gellir ei addasu fwyaf ar gyfer dementia. Dyma yw prif ac Penaethiaid Gwasanaeth y blynyddoedd sy'n cael eu byw gydag anabledd i'r rhai dros 70 oed. Mae'r cyflyrau hyn yn gysylltiedig â heneiddio ac yn sgil cynnydd yn y boblogaeth a bod pobl yn byw yn hirach, mae galw cynyddol am y gwasanaethau hyn, gyda cPenaethiaid Gwasanaeth tau dilynol ar gyfer gofal a chefnogaeth barhaus ar draws adrannau iechyd a gofal cymdeithasol.

45. Mae'n bwysig cydnabod arwyddocâd rheoli colled clyw gyda chymhorthion clyw a thechnolegau eraill i bobl â dementia. Pan fydd rhywun wedi cael diagnosis o ddementia, mae yna oblygiadau ychwanegol i'w hystyried wrth feddwl am golled clyw a mynd i'r afael ag ef, o safbwynt cefnogi anghenion cyfathrebu yr unigolyn a'i alluogi i barhau i gyflawni ei lawn botensial yn gymdeithasol. Mae ystyried anghenion o ran y Gymraeg wrth ddarparu mynediad at wasanaethau a darparu gofal hefyd yn hanfodol ar gyfer pobl â dementia. Mae Mwy na geiriau a'r Cynllun Gweithredu ar Ddementia yn cydnabod, yn acPenaethiaid Gwasanaeth  siaradwyr Cymraeg sy'n byw gyda dementia, bod derbyn gofal a chefnogaeth yn eu mamiaith neu yn eu dewis iaith yn fater o angen hanfodol. Mae effeithiau economaidd hefyd. Mae mynediad amserol at ofal clyw ar gyfer y garfan hon o gleifion yn cael effaith bwysig ar ansawdd eu bywydau ac ar eu hiechyd meddwl hwy eu hunain, ac ar ansawdd bywyd ac iechyd meddwl eu teuluoedd a'u gofalwyr:

- Tudalen flaen (baaudiology.org) – adolygiad o dystiolaeth sy'n egluro'r gwahaniaethau rhwng risg i'r boblogaeth a risg i'r unigolyn ac yn cefnogi'r cysylltiad rhwng colli clyw a dementia ac nid ei acPenaethiaid Gwasanaeth .
- Hearing loss and cognition: a discussion for audiologists and hearing healthcare professionals.
- Risk Factors for Young-Onset Dementia in the UK Biobank | Dementia ac Amhariad Gwybyddol | JAMA Neurology | JAMA Network.
- Adroddiad Cymdeithas Alzheimer Cymru/Comisiynydd y Gymraeg Unedig yn erbyn Dementia.



## Rheoli awdioleg

46. Bydd cynlluniau rheoli unigol sy'n seiliedig ar asesiad o anghenion cleifion, sy'n cael eu llunio ar y cyd rhwng y cleifion ac awdioleg, yn pennu beth sydd bwysicaf i bobl ac yn llywio cynllun i ddarparu ymyrraeth a chymorth. Bydd hyn yn cynnwys y cynllun ar gyfer cymorth a chynhaliaeth barhaus ac unrhyw apwyntiad ail-alw ac adolygu. Bydd cynlluniau rheoli hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gymorth ychwanegol gan gynnwys y cymorth a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol, y Trydydd Sector ac eraill. Mae'r Trydydd Sector yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno cael ardystiad bod amhariad ar eu clyw (mae Tystysgrif Amhariad ar y Clyw yn hanfodol er mwyn i'r garfan hon o bobl gael mynediad at wasanaethau addysg neu gyflogaeth neu fudd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a bydd felly'n ddatblygiad â blaenoriaeth yng nghamau cychwynnol diwygio awdioleg.

## Awdioleg a Chlystyrau Gofal Sylfaenol

47. Mae clwstwr yn dwyn ynghyd gwasanaethau iechyd lleol ar draws ardal ddaearyddol, sydd fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000. Mae clystyrau'n galluogi gofal wedi'i gydgysylltu'n well ac yn hyrwyddo pwysigrwydd iechyd a lles unigolion a chymunedau. Mae ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn cael eu darparu yn unol â *Cymru Iachach* ac y gweithir tuag at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae angen ymwreiddio darpariaeth awdioleg fwy cadarn ym mhob Clwstwr ac mae angen i benderfyniadau Clystyrau gynnwys awdioleg a defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch gwasanaethau a gomisiynir yn lleol: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.

## Cyffredinrwydd Colled Clyw a Chyflyrau Cysylltiedig

48. Mae amhariad ar y clyw yn gyflwr iechyd hirdymor pwysig ac yng Nghymru, mae wedi'i nodi gan fenter 'Global Burden of Disease' Sefydliad Iechyd y Byd fel y pumed prif acPenaethiaid Gwasanaeth am y blynyddoedd sy'n cael eu byw gydag anabledd. Hefyd, amhariad ar y clyw yw'r prif acPenaethiaid Gwasanaeth am y blynyddoedd sy'n cael eu byw gydag anabledd i'r rhai dros 70 oed. Mae 17% o bobl yng Nghymru wedi adrodd bod ganddynt anawsterau clyw yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22. Mae'r RNID yn adrodd bod dros hanner y boblogaeth sy'n 55 oed neu'n hŷn â cholled clyw a bod gan 80% o bobl dros 70 oed golled clyw. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 1 o bob 5 unigolyn yn y DU erbyn 2035.

49. Yn aml, ni fydd amhariad ar y clyw yn cael ei adnabod, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn disgwyl 10 mlynedd ar gyfartaledd cyn ceisio cymorth. O'r 11 miliwn o bobl yn y DU sydd â cholled clyw y gellir ei drin, amcangyfrifir bod llai na hanner o'r bobl a fyddai'n cael budd o ddefnyddio cymhorthion clyw yn eu defnyddio. Mae hyn yn gadael angen sylweddol heb ei ddiwallu yn ein poblogaeth. Dylid ystyried sgrinio clyw yng nghanol oes yn enwedig ar gyfer poblogaethau targed fel y rhai â dementia neu'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal, yn unol ag argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd.

50. Mae clyw, tinitws ac anawsterau cydbwysedd hefyd yn gyflyrau iechyd pwysig a chyffredin sy'n arwain at ansawdd bywyd gwaeth os na chânt eu rheoli ac maent yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn. Bydd nifer o bobl yn profi tinitws nad yw'n peri trafferth ar ryw bwynt yn eu bywydau, ond mae 10% o bobl yn profi tinitws parhaus. O'r bobl hynny â thinitws parhaus, bydd 1 o bob 10 yn canfod ei fod yn cael effaith sylweddol ar ansawdd eu bywydau. Mae galw cynyddol ar wasanaethau awdioleg y GIG ac wrth i'r boblogaeth heneiddio ac wrth i ddisgwyliad oes gynyddu bydd y galw hwn yn parhau. Bydd pobl yn byw'n hirach gyda cholled clyw, tinitws a chyflyrau festibwlar a bydd angen iddynt gael mynediad at wasanaethau awdioleg er mwyn sicrhau y gallant barhau i gysylltu â'r byd o'u cwmpas a chyfranogi'n llawn mewn bywyd, yn ddiogel.

## Dadansoddiad Ariannol

51. Cydnabyddir bod heriau, yn enwedig mewn perthynas ag amseroedd aros ond, gyda chyllid cynaliadwy priodol, mae gan awdioleg gynlluniau i gyflawni atebion ar gyfer gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, gan wneud gwelliannau ar draws gwasanaethau a'r economi iechyd, yn benodol drwy gyflwyno uwch-ymarferwyr awdioleg mewn Clystyrau gofal sylfaenol.

52. Cyllid adnoddau cylchol ar gyfer awdioleg yw'r rhwystr i newid trawsnewidiol a darparu modelau a llwybrau gwasanaeth newydd; fodd bynnag, mae awdioleg yn rhan annatod o ofal iechyd ac mae galluogi mynediad cyfleus, amserol ac uniongyrchol at awdioleg mewn Clystyrau gofal sylfaenol yn bwysig i ddinasyddion.

53. Bu gwariant GIG Cymru ar golled clyw yn gyson is nag ar gyflyrau iechyd eraill ers sawl blwyddyn.

54. Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gwerthusiad llawn o'r opsiynau ar gyfer acPenaethiaid Gwasanaeth ion busnes y saith bwrdd iechyd a ddarparwyd i ddiwygio awdioleg. Y canlyniad fydd yr angen i fyrddau iechyd sicrhau cyllid cylchol ychwanegol i weithredu diwygiadau fesul cam dros gyfnod o dair blynedd, gyda hynny'n mynd law yn llaw â gweithlu priodol wedi'i uwchsgilio gyda chymwysterau ychwanegol ac wedi'i hyfforddi i ddarparu'r *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol*.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

55. Mae gweithredu datblygiad proffesiynol parhaus penodol yn sicrhau bod y proffesiwn yn gwella ei sgiliau a'i wybodaeth yn barhaus fel y gall ddarparu modelau a llwybrau gwasanaeth newydd. Mae diwygio awdioleg, wedi'i lywio gan y *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol*, yn gyfle i feithrin cefnogaeth, mentora, arweinyddiaeth a gwella ansawdd o fewn timau awdioleg, gyda chefnogaeth AaGIC.

56. Mae cynlluniau hyfforddi a chefnogaeth gan AaGIC yn eu lle i ategu'r gwaith datblygu a galluogi timau i weithio ar frig eu trwydded ar draws y llwybr gyrfa. Mae'r llwybr gyrfa cwbl integredig hwn yn peri bod modd datblygu unigolion a gyflogwyd i rolau awdiolegwr cynorthwyol Band 3 yr Agenda ar gyfer Newid sy'n ymuno gyda chymwysterau lefel 3 hyd at Wyddonydd Clinigol Ymgynghorol Band 8C/9 ar lefel doethuriaeth. Mae llwybrau a chyfleoedd hyfforddi yn hanfodol er mwyn recriwtio a chadw'r gweithlu a'i allu i ddatblygu, darparu ac arwain gwasanaethau. Gwyddonwyr Gofal Iechyd, sydd wedi'u haddysgu a'u hyfforddi i lefel ymarferydd graddedig a Meistr lefel 6 a 7, yw craidd y gweithlu awdioleg, gyda Chynorthwywyr a Gweithwyr Cyswllt yn eu cynorthwyo, ac mae'r rolau awdioleg cofrestredig graddedig, arbenigol ac uwch-ymarfer hyn yn ganolog i ddarpariaeth y gwasanaeth.

57. Mae AaGIC, drwy'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant, yn comisiynu addysg Awdioleg drwy Dystysgrif Addysg Uwch ar gyfer ymarferwyr cyswllt, rhaglen hyfforddi Ymarferwyr (PTP), a rhaglen ategu gradd ar gyfer cyflogeion (rhaglen hyfforddi ymarferwyr rhan-amser) ac yn ariannu mynediad at Raglen hyfforddi gwyddonwyr (STP) a Rhaglen hyfforddi gwyddonwyr arbenigol uwch (HSST).

58. Yn ogystal, mae arian ar gael ar gyfer hyfforddiant uwch-ymarfer drwy gyllidebau AaGIC a ddarperir i fyrddau iechyd, megis modiwlau lefel gradd Meistr Pediatrig, ac ar gyfer llwybrau cyfatebol neu amgen i gofrestru, fel Cynllun Hyfforddiant Uwch y BAA. Ceir mynediad uniongyrchol at brentisiaethau gan wasanaethau i ddarparwyr y prentisiaethau. Mae nifer y lleoedd ar raglenni a gomisiynwyd dros y 3 blynedd diwethaf fel a ganlyn:

| | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Hyfforddi Ymarferwyr Awdioleg | 11 | 13 | 9 |
| Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Awdiolegol | 10 | 8 | 11 |

59. Bydd gwella sgiliau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys dysgu cyffredinol ond hefyd elfennau gorfodol wedi'u teilwra i fodelau a llwybrau newydd gwasanaethau awdioleg GIG Cymru. Yn y cyfamser bydd cymwysterau israddedig ac ôl-raddedig yn parhau, yn sgil eu llwyddiant fel sail i wasanaethau yn GIG Cymru. Dylai datblygiad proffesiynol parhaus hefyd ganolbwyntio ar sgiliau Cymraeg y gweithlu – a chynyddu'r defnydd o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg, fel y rhai a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i chynllun iechyd a gofal cymdeithasol.

## Lleoliadau a Mentora

60. Mae lleoliadau'n rhan bwysig o'r cymwysterau uwch y mae awdiolegwyr yn eu hennill mewn adrannau awdioleg eraill neu mewn gwasanaethau gwyddor gofal iechyd neu'n ehangach e.e. adrannau ENT, oherwydd eu bod yn gyfle iddynt gael y profiad o reoli acPenaethiaid Gwasanaeth ion cymhleth. Bydd hyn hefyd yn helpu i feithrin cysylltiadau ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd – gyda'r timau'n cydweithio i wella profiad a chanlyniadau cleifion. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau awdioleg yn llwyddiannus yn y dyfodol.

61. Mae rhwydweithiau mentora a rhaglen tiwtoriaeth awdioleg Cymru yn arwain awdiolegwyr sydd newydd gymhwyso a thimau awdioleg ac yn cael eu cefnogi gan Gynllun Awdioleg Cymru cynhwysfawr ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid i sicrhau ansawdd, cysondeb a datblygiad proffesiynol parhaus.



Leadership

62. Bydd Cymrodoriaeth Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru AaGIC yn cyfrannu at ddatblygiad arweinyddiaeth awdiolegwyr, gan gefnogi Cymrodyr i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn GIG Cymru ac mewn sefydliadau eraill. Bu'r ymgysylltu hyd yma'n dda ac mae'r Cymrodyr wedi ymrwymo i'r Gymrodoriaeth, gan gwblhau amryw o brosiectau a gynorthwyodd i hysbysu datblygiad y *Dull Gweithredu*.

63. 63. Bydd mynediad at Hyfforddiant Gwyddonydd Arbenigol Uwch a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi cywerthedd, a ddarperir gan AaGIC, yn galluogi gweithwyr proffesiynol awdioleg i ddatblygu i rolau gwyddonwyr arweiniol ac uwch, gan gynnwys rolau Penaethiaid Gwasanaethau sy'n Wyddonwyr Clinigol Ymgynghorol neu'n Gyfarwyddwyr Clinigol.

## Cyfathrebu

64. Mae cyfathrebu am ofal clyw yn bwysig i GIG Cymru, y cyhoedd, y Trydydd Sector, ac eraill. Mae'r rhanddeiliaid eisoes yn cydweithio i ddatblygu negeseuon allweddol ac ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol, a fydd yn cael eu datblygu ymhellach drwy Fwrdd Awdioleg Cymru, o dan gadeiryddiaeth Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ategu pob dim a wnawn i ddiwygio a thrawsnewid gwasanaethau awdioleg. Y themâu allweddol yw:

- Darparu rhaglen o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy Glystyrau gofal sylfaenol i sicrhau ein bod yn creu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth awdioleg.
- Cysylltu â GIG 111 Cymru a Helpwch Ni i'ch Helpu Chi, i hyrwyddo newidiadau.
- Datblygu gohebiaeth genedlaethol a lleol drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg ar gyfer cyflwyno hunanofal, sy'n cyd-fynd â Safonau Ansawdd Awdioleg Cymru.

## Casgliad

Mae colled clyw yn bwysig, oherwydd mae'n gyffredin iawn ac yn cael effaith fawr ar iechyd a lles pobl ac adnoddau GIG Cymru ac awdurdodau lleol. Mae timau awdioleg GIG Cymru wedi arddangos ymarfer arloesol gan ddatblygu atebion cenedlaethol arobryn i ddarparu modelau gwasanaeth newydd mewn gofal sylfaenol. Lle mae modelau gwasanaeth newydd wedi'u cyflwyno, maent eisoes yn rhyddhau capasiti nyrsys cymunedol, meddygon teulu ac adrannau ENT. Gyda'r adnoddau priodol, bydd diwygio awdioleg a chyflwyno awdioleg trawsnewidiol mewn gofal sylfaenol a chymunedol yn sicrhau buddion enfawr i'r dinasyddion hynny sydd â cholled clyw ac i'w teuluoedd ledled Cymru.

Mae'r ddogfen hon, *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg yn y Dyfodol*, yn amlinellu'r acPenaethiaid Gwasanaeth dros gyflwyno'r gwaith o ddiwygio a thrawsnewid awdioleg fesul cam, ac yn benodol cyflwyno awdioleg yn llawn mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ledled GIG Cymru dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r bwriadau a gynigir gan y dull gweithredu wedi cael cefnogaeth y Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg ac ystod eang o randdeiliaid eraill, gan gynnwys yr AHCS a'r corff proffesiynol awdioleg mwyaf, y BAA.

## Ymrwymiad i Fwriadau

1. Datblygu'r gwaith o ddiwygio awdioleg drwy ddatblygu a gweithredu cynlluniau awdioleg byrddau iechyd lleol i wireddu'n llawn y *dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau awdioleg yn y dyfodol* o fewn GIG Cymru y cytunwyd arno.
2. Cyflwyno rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant, i gynnwys lleoliadau, mentora ac arweinyddiaeth.
3. Cyflwyno modelau a llwybrau gwasanaeth newydd a Systemau Data TG a Digidol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.
4. Datblygu dull cyfathrebu cadarn a negeseuon allweddol ar gyfer GIG Cymru, timau awdioleg, y cyhoedd ac eraill. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r cynlluniau gweithredu cydraddoldeb cenedlaethol a Mwy na geiriau – i wella mynediad, profiad a chanlyniadau.
5. Adeiladu ar y gwaith cydweithredol sydd eisoes ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a'r Trydydd Sector, a pharhau i gynhyrchu taflenni gwybodaeth, er enghraifft Hunanreoli cwyr clustiau.



# Atodiad A: Llwybrau Awdioleg GIG Cymru

| Enw | Statws y Llwybr | Wedi'i gyhoeddi? | Amserlen cwblhau |
|---|---|---|---|
| Llwybr clyw oedolion (newydd ac ailasesu) | Wedi'i weithredu | Yr elfen atgyfeirio wedi'i chyhoeddi (neu ar y gweill) drwy Lwybrau Iechyd Cymunedol | Wedi'i gwblhau |
| Llwybrau tinitws oedolion (newydd ac ailasesu) | Wedi'i weithredu | Yr elfen atgyfeirio wedi'i chyhoeddi (neu ar y gweill) drwy Lwybrau Iechyd Cymunedol | Wedi'i gwblhau |
| Atgyfeirio ar gyfer MRI (rhan o'r llwybr clyw a tinitws) | Wedi'i gytuno; wrthi'n cael ei gyflwyno | Bydd canllawiau'n cael eu datblygu | 2025-26 |
| Sgrinio clyw babanod newydd-anedig | Wedi'i weithredu | Canllawiau wedi'u datblygu a'r gwasanaeth yn cael ei reoli gan Iechyd Cyhoeddus Cymru | Wedi'i gwblhau |
| Y clyw a dementia | Wedi'i gytuno; wrthi'n cael ei gyflwyno | Gwelliant Cymru i'w gyhoeddi | 2025-26 |
| Sgrinio wrth ddechrau'r ysgol | Wedi'i gytuno; wrthi'n cael ei gyflwyno | Cylchlythyr Iechyd Cymru wedi'i gyhoeddi | Wedi'i gwblhau |
| Llwybr rheoli cwyr | Wedi'i gytuno; wrthi'n cael ei gyflwyno | Cylchlythyr Iechyd Cymru wedi'i gyhoeddi | Wedi'i gwblhau |
| Llwybrau festibwlar oedolion | Wedi'i gytuno; wrthi'n cael ei gyflwyno | Yr elfen atgyfeirio wedi'i chyhoeddi (neu ar y gweill) drwy Lwybrau Iechyd Cymunedol | 2025-26 |
| Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Awdioleg | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac eraill i'w gyhoeddi | 2025-29 |
| Llwybr Mewnblaniad Cochlear | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | Y Cyd-bwyllgor Comisiynu i'w gyhoeddi | 2026-27 |
| Llwybr Mewnblaniad Clyw Dargludiad Asgwrn | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | Y Cyd-bwyllgor Comisiynu i'w gyhoeddi | 2026-27 |
| Manyleb Gwasanaeth ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau prosesu clywedol | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | | 2027-28 |
| Rheoli OME (clust ludiog) mewn plant | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | | 2027-28 |
| Colled Clyw ac Anabledd Dysgu neu Awtistiaeth | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | | 2027-28 |
| Dyfeisiau Gwrando Cynorthwyol | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | | 2028-29 |
| Manyleb Gwasanaeth ar gyfer adsefydlu festibwlar | Blaenoriaeth o ran y Dull Gweithredu | | 2028-29 |

# Atodiad B: Ystadegau Awdioleg

## Amseroedd aros

Mae adrodd am lwybrau awdioleg bob mis yn arddangos yr amseroedd aros o fewn y Safonau Ansawdd Awdioleg cenedlaethol. Mae data awdioleg yn cael ei adrodd a'i fonitro ar wahân mewn cyhoeddiadau ystadegau swyddogol ac fel targed yn fframwaith perfformiad GIG Cymru o 2024-25. Bydd y mesuriadau data yn helpu i roi amseroedd aros plant dan y chwyddwydr:

- 14 wythnos o'r atgyfeiriad i'r ymyriad/gwaith adfer clyw i oedolyn (16 oed a hŷn) (gan gynnwys cymhorthion clyw ond nid dim ond hynny) ar gyfer cleifion newydd
- 14 wythnos o'r atgyfeiriad i'r ymyriad/gwaith adfer clyw i oedolyn (16 oed a hŷn) (gan gynnwys cymhorthion clyw ond nid dim ond hynny) ar gyfer cleifion presennol (h.y. y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth o'r blaen ac sydd angen eu hailasesu)
- 14 wythnos o'r atgyfeiriad i'r ymyriad/gwaith adfer tinitws ar gyfer cleifion newydd
- 14 wythnos o'r atgyfeiriad i'r ymyriad/gwaith adfer tinitws i oedolion (16 oed a hŷn) ar gyfer cleifion presennol (h.y. y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth o'r blaen ac sydd angen eu hailasesu)
- 14 wythnos o'r atgyfeiriad i'r driniaeth/gwaith adfer festibwlar (e.e. Fertigo Lleoliadol Gwasgfaol Anfalaen) i oedolion (16 oed a hŷn) ar gyfer cleifion newydd
- 14 wythnos o'r atgyfeiriad i'r driniaeth/gwaith adfer festibwlar (e.e. Fertigo Lleoliadol Gwasgfaol Anfalaen) i oedolion (16 oed a hŷn) ar gyfer cleifion presennol (h.y. y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth o'r blaen ac sydd angen eu hailasesu)
- 6 wythnos o'r atgyfeiriad i'r asesiad clyw pediatrig (<16 oed)
- 6 wythnos o'r asesiad i'r ymyriad ar gyfer clyw pediatrig (<16 oed
- 8 wythnos o'r atgyfeiriad i'r asesiad diagnostig ar gyfer asesiad clyw a festibwlar i oedolion (h.y. cleifion nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio drwy lwybrau clyw neu festibwlar uniongyrchol).

Mae'r chwe mesur 14 wythnos i oedolion wedi'u cyfuno mewn un mesur o fewn fframwaith perfformiad GIG Cymru. Mae'r ddau fesur 6 wythnos pediatrig wedi'u cyfuno i greu ail fesur o fewn y fframwaith perfformiad.

## Data Demograffig y Boblogaeth – sy'n disgrifio poblogaeth bresennol Cymru a phoblogaeth Cymru yn y dyfodol

Mae'r newidiadau demograffig ledled y byd gorllewinol yn hysbys iawn; mae yna fwy o bobl, ac mae'r bobl hynny'n byw yn hirach. Mae effaith y newidiadau hyn yn y boblogaeth ar wasanaethau awdioleg yn y DU yn glir a chydnabyddir hyn gan yr AHCS, y BAA, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ac is-arbenigedd ENT.

Mae asesiad clyw ar adegau penodol ym mywyd person yn bwysig i sicrhau mynediad amserol at ymyriad ac i leihau effaith negyddol colled clyw heb ei reoli. Dyma'r amserlenni a argymhellir a'r rhai sy'n cael eu hystyried:

- sgrinio clyw babanod
- sgrinio clyw plant 4 – 5 oed yn yr ysgol
- sgrinio clyw plant 11 – 12 yn yr ysgol
- 50 oed – Canol oes a/neu wedi'i dargedu ar sail cydafiacheddau neu boblogaethau agored i niwed/risg uchel
- twf y Boblogaeth a Heneiddio yng Nghymru
- cynnydd Cyffredinol yn y Boblogaeth: Amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru'n tyfu 5.9% i 3.32 miliwn erbyn canol 2032 a 10.3% i 3.46 miliwn erbyn 2047
- demograffeg sy'n Heneiddio: Mae disgwyl i nifer yr unigolion 65 oed a hŷn godi 19.6% i 806,000 rhwng canol 2022 a chanol 2032, gan gyrraedd dros un filiwn erbyn 2060.

Mae'r newid demograffig hwn yn sylweddol oherwydd bod colli clyw yn gysylltiedig ag oedran yn gyffredin ymysg oedolion hŷn. Er enghraifft, mae dros hanner poblogaeth y DU sydd dros 55 oed yn colli eu clyw, ac mae 80% o'r rhai dros 70 oed wedi'u heffeithio.

## Cyffredinrwydd colled clyw

- **Ystadegau Cenedlaethol:** Mae tua 18 miliwn o oedolion yn y DU yn fyddar, yn profi colled clyw, neu â thinitws.
- **Colled Clyw Difrifol:** Amcangyfrifir bod gan 1.2 miliwn o oedolion yn y DU golled clyw sy'n ddigon difrifol fel na fyddent yn gallu clywed y rhan fwyaf o sgyrsiau.
- **Data sy'n benodol i Gymru:** Amcangyfrifir bod 480,000 o bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yng Nghymru, sef tua 1 o bob 7 o'r boblogaeth.

Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau'r angen mawr a chynyddol am wasanaethau awdioleg, yn enwedig wrth i'r boblogaeth heneiddio.

## Capasiti a Heriau'r Gwasanaeth Awdioleg

- **Prinder gweithlu:** Mae'r proffesiwn awdioleg yn y DU yn wynebu heriau recriwtio sylweddol, gydag anawsterau i ddenu gweithwyr newydd, sy'n arwain at broblemau yn narpariaeth y gwasanaeth.
- **Bylchau yn y gwasanaeth:** Amlygodd adroddiad bod 1 o bob 4 claf sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw yng Nghymru yn dweud nad ydynt wedi derbyn y cymorth ar ffurf yr wybodaeth a'r ohebiaeth sydd eu hangen arnynt, sy'n dangos problemau systemig yn narpariaeth y gwasanaeth.
- **Awdioleg bediatrig:** Mae nifer yr Athrawon Plant Byddar yng Nghymru wedi gostwng 20% ers 2011, gyda disgwyl y bydd traean ohonynt yn ymddeol yn y degawd nesaf, gan effeithio o bosibl ar y cymorth i blant byddar.

Mae'r heriau hyn yn awgrymu y gallai'r gwasanaethau awdioleg, os na chaiff ei ddiwygio, gael trafferth bodloni'r galw cynyddol, gan arwain at amseroedd aros hirach a llai o fynediad at ofal.

Mae'r cyfuniad o boblogaeth sy'n heneiddio, cyffredinrwydd uchel yr acPenaethiaid Gwasanaeth ion o golled clyw, a'r heriau presennol yn narpariaeth gwasanaethau awdioleg yn dangos bwlch sy'n ehangu rhwng y galw a'r capasiti yng Nghymru. Bydd angen cynllunio strategol, buddsoddiad yn natblygiad y gweithlu, a modelau darparu gwasanaethau gwell i fynd i'r afael â'r bwlch hwn ac ateb anghenion cynyddol y boblogaeth.

## Cyfeiriadau


Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Mawrth 2025 | LLYW.CYMRU

www.rnid.org.uk/get-involved/research-and-policy/facts-and-figures/prevalence-of-deafness-and-hearing-loss/

www.audiology-worldnews.com/world-news/profession/4724-hard-of-hiring-uk-audiology-recruitment-crisis-part-two-interview-samantha-lear-president-british-academy-of-audiology

www.hellorayo.co.uk/greatest-hits/south-wales/news/nhs-wales-report-deaf-failings

Science Evidence Advice (SEA)




Mae'r galw cynyddol am wasanaethau ENT yn parhau i fod yn her ledled Cymru, gwledydd eraill y DU ac Ewrop. Parhau i dyfu mae'r galw ar hyn o bryd, ac mae'n cyfateb i 9.3% o'r holl apwyntiadau cleifion allanol newydd a 7.5% o'r rhestrau aros am driniaeth (data diwedd Ebrill 2025).

## Tabl 2: Cyffredinrwydd acPenaethiaid Gwasanaeth ion yng Nghymru

| | Cyffredinrwydd acPenaethiaid Gwasanaeth ion | Cynnydd a ragwelir dros y 5 mlynedd nesaf (%) |
|---|---|---|
| **Poblogaeth Cymru** | **3,121,500** | **3,205,781**<br>(2.7% y Swyddfa Ystadegau Gwladol) |
| Poblogaeth 65 oed a hŷn | 678,403 (21%) | 861,572 |
| Poblogaeth 75 oed a hŷn | 290,744 (9%) | 298,594 |
| Poblogaeth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 190,598 (5.9%) | 195,744 |
| Y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg | 862,700<br>(28% yr Arolwg o'r Boblogaeth) | I'w gadarnhau |

### Cynlluniau'r Gweithlu a Hyfforddiant

Mae manylion yr hyfforddiant a gomisiynwyd o 1998-2022 yn y Cynllun Addysg a Hyfforddiant ar gyfer 2022-23: www.aagic.gig.cymru/files/education-and-training-plan-2022-23-cymraeg/

Cynlluniau Addysg a Hyfforddiant dilynol: www.aagic.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/

Modelau gwasanaeth newydd a diwygiedig a buddsoddiad mewn awdioleg ar draws yr holl lwybrau.

# Atodiad C: Dyfodol Gwasanaethau Awdioleg GIG Cymru 2025-30 – Ein Gweledigaeth

## Cyflawni'r Amcanion

### Cynllun gwaith ac amcanion SMART

Datblygwyd cyfres o amcanion SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amser-benodol) i helpu i gyflawni amcanion y *Dull Gweithredu*, a chafodd y rhain eu dadansoddi a'u blaenoriaethu i nodi'r hyn y gellid ei gyflawni dros y pum mlynedd gyntaf. Er bod hyn yn cwmpasu'r 'beth' a'r 'pryd', bydd cynllun gweithredu manylach yn cael ei ddatblygu yn amlinellu sut y bydd yr amcanion 'sut' yn cael eu cyflawni, pwy fydd yn cymryd rhan, y camau gweithredu fydd eu hangen a'r cerrig milltir a fydd yn dangos cynnydd, a'r canlyniadau a ddisgwylir. Bydd ffocws penodol ar y Gymraeg, anghenion y rhai â nodweddion gwarchodedig a mynd i'r afael ag annhegwch ym maes iechyd fel rhan o'r cynllun gweithredu.

| | Amcan | Dan arweiniad | Cysylltiad â'r Amcan | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Nodi capasiti'r gweithlu awdioleg drwy adolygu'r capasiti presennol a'r gofynion i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, i gynnwys capasiti clinigol, ymchwil, arweinyddiaeth a rheoli (gan gynnwys ffocws ar y Gymraeg). | Penaethiaid Gwasanaeth | 1, 2, 3, 16, 17 | | | |
| 2 | Gweithio gydag AaGIC i ddatblygu rolau uwch-ymarferwyr awdioleg yng nghynnwys y modiwl prentisiaeth hyfforddiant gwasanaeth ac adnoddau i gefnogi'r ddarpariaeth. | Penaethiaid Gwasanaeth | 1, 2 | | | |
| 3 | Gweithio gydag AaGIC i ddatblygu modiwlau hyfforddiant u wch-ymarfer sy'n cefnogi datblygiad cwmpas rôl gofal sylfaenol a chymunedol awdioleg. | Penaethiaid Gwasanaeth | 1, 2, 6, 17 | | | |
| 4 | Ymgysylltu ag eraill ledled y DU er mwyn parhau i ddadlau'r acPenaethiaid Gwasanaeth dros, a gweithredu'r defnydd o gyfarwyddydau grwpiau cleifion o fewn awdioleg, a symud ymlaen i ddatblygu rhagnodi anfeddygol. | ASSAG | 2, 17 | | | |
| 5 | Datblygu cyfres o adnoddau cenedlaethol (deunyddiau llywodraethu, hyfforddi a darparu gwasanaethau) i gefnogi gweithrediad gwasanaethau cefnogaeth gan gymheiriaid gwirfoddol awdioleg. Ystyried sgiliau Cymraeg gwirfoddolwyr fel rhan o hyn. | Penaethiaid Gwasanaeth | 1, 9, 10, 11, 17 | | | |
| 6 | Cydweithio â'r holl randdeiliaid i ddatblygu a gweithredu cynlluniau sy'n codi ymwybyddiaeth o awdioleg fel gyrfa ac yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi/rhaglenni hyfforddiant. | AaGIC | 1 | | | |
| 7 | Datblygu a chyflwyno'r defnydd o ddisgrifiadau swydd cenedlaethol ar gyfer swyddi Penaethiaid Gwasanaeth sy'n Wyddonwyr Clinigol Ymgynghorol ar sail parthau Ymarfer Gwyddonol Da. | Bwrdd Iechyd | 1, 3 | | | |
| 8 | Gweithio gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau bod cynlluniau cynghori ar recriwtio allanol cenedlaethol yn cael eu gweithredu'n rheolaidd ar gyfer swyddi Penaethiaid Gwasanaeth Awdioleg; gan gynnwys rhoi cyngor i sefydliadau sy'n cyflogi ar gymorth a datblygiad cychwynnol y sawl a benodir i'r swyddi hyn. | Bwrdd Iechyd | 1, 3 | | | |

| | Amcan | Dan arweiniad | Cysylltiad â'r Amcan | Blwy-ddyn 1 | Blwy-ddyn 2 | Blwy-ddyn 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Gweithio gydag AaGIC ac eraill i ddatblygu a hyrwyddo'r gwaith o gynllunio swyddi ar gyfer Gwyddonwyr Gofal Iechyd mewn awdioleg i'w galluogi i gynnal y parthau Ymarfer Gwyddonol Da a ddiffinnir gan yr AHCS; cynnwys ymchwil ac arloesedd, ymarfer proffesiynol, gwyddonol a chlinigol ac arweinyddiaeth. I gynnwys gweithredu Canllawiau AaGIC ar Gynllunio Gweithlu ar gyfer yr iaith Gymraeg. | ASSAG | 1, 2, 3, 6 | | | |
| 10 | Gweithredu'r mesurau adrodd perfformiad cenedlaethol newydd ar gyfer awdioleg. | Bwrdd Iechyd | 7, 15 | | | |
| 11 | Parhau i gasglu data mesuriadau profiadau a adroddir gan gleifion (PREM) a'u defnyddio i lywio datblygiad gwasanaethau yn lleol a chenedlaethol. | Bwrdd Iechyd | 13, 15, 17 | | | |
| 12 | Datblygu mesuriadau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs) sy'n gyflwr-benodol a chytuno ar gynllun cenedlaethol ar gyfer defnyddio ac alinio PROM. | Penaethiaid Gwasanaeth | 13, 15, 17 | | | |
| 13 | Datblygu llwybrau clinigol integredig cenedlaethol a manylebau gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• gweithio gyda Gwelliant Cymru i gyhoeddi llwybr cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n byw â cholled clyw a dementia<br>• gweithio gyda Gwelliant Cymru i ddatblygu llwybr cenedlaethol ar gyfer pobl â cholled clyw ac anabledd dysgu<br>• datblygu llwybr cenedlaethol ar gyfer rheoli OME (clust ludiog) mewn plant<br>• datblygu manyleb gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer adsefydlu festibwlar<br>• datblygu manyleb gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau prosesu clywedol. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyd | 4 | | | |
| 14 | Datblygu a gweithredu cynllun cenedlaethol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid eraill i gynyddu pwysigrwydd diogelu'r clyw, effaith colled clyw heb ei reoli a manteision ymyrraeth gynnar a pharhaus. | ASSAG | 6, 7, 8, 11, 14, 17 | | | |
| 15 | Datblygu gwefan Awdioleg Cymru a thudalennau gwe awdioleg y Byrddau Iechyd i ddarparu rhagor o wybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'r cyhoedd. | Bwrdd Iechyd | 6, 8, 9, 11 | | | |
| 16 | Gweithio gyda Gofal Iechyd Digidol Cymru i ddatblygu deunyddiau a'u gweithredu o fewn Ap y GIG, i gefnogi pobl ag anawsterau clyw ac anawsterau cysylltiedig a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau awdioleg y GIG, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweithredu Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd a blaenoriaethau Mwy na geiriau. | Penaethiaid Gwasanaeth | 6, 8, 9, 12, 13, 17 | | | |
| 17 | Sicrhau cyllid cylchol ac yna darparu'r dechnoleg offer clyw ddiweddaraf sy'n cefnogi cysylltedd â ffonau clyfar a chlinigau o bell, ac y gellir eu hailwefru. | Bwrdd Iechyd | 6, 11, 12, 17 | | | |
| 18 | Ystyried a gweithredu model cyllid a gwasanaeth newydd ar gyfer darparu Dyfeisiau Gwrando Cynorthwyol, gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel dulliau amgen neu ychwanegol at offer clyw unigolyn, fel rhan o ofal holistaidd sy'n canolbwyntio ar y claf. | Bwrdd Iechyd | 6, 11, 12, 17 | | | |
| 19 | Gweithio gyda chydwasanaethau i sicrhau bod gwaith caffael Awdioleg cenedlaethol yn darparu mynediad at dechnolegau diweddaraf y GIG a'r gwerth gorau am arian. | Bwrdd Iechyd | 7, 12, 13, 17 | | | |

| | Amcan | Dan arweiniad | Cysylltiad â'r Amcan | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | Sefydlu systemau cenedlaethol neu weithgor i werthuso ac ymchwilio i'r technolegau diweddaraf, eu sail dystiolaeth a'u gwerth (e.e. rhaglenni Deallusrwydd Artiffisial) a llunio argymhellion gweithredu. | ASSAG | 4, 5, 6, 7, 12, 13, 17 | | | |
| 21 | Gweithio gyda darparwr y system rheoli cleifion Awdioleg ac eraill i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynnig Digidol Awdioleg. Mae'n cynnwys:<br>• defnyddio a/neu integreiddio â systemau presennol a systemau datblygol (cofnodion cleifion electronig eraill)<br>• datblygu rhyngwyneb defnyddwyr gwasanaethau sy'n galluogi defnyddwyr i reoli eu hapwyntiadau, cofnodi eu mesuriadau canlyniadau – i gynnwys ffocws ar y Gymraeg yn unol â blaenoriaethau Mwy na geiriau<br>• integreiddio â'r cyfarpar profi diagnostig a ddefnyddir mewn clinigau. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyd | 4, 5, 9, 12, 13, 17 | | | |
| 22 | Gweithredu argymhellion Strategaeth Ymchwil Awdioleg Cymru drwy Rwydwaith Ymchwil Awdioleg Cymru. | ASSAG | 3, 15, 16 | | | |
| 23 | Nodi a blaenoriaethu pynciau/prosiectau ymchwil awdioleg, partneriaid academaidd a chyfleoedd cyllido; gweithredu cynlluniau i fanteisio i'r eithaf ar y capasiti ymchwil ymysg clinigwyr, cydweithwyr academaidd a myfyrwyr a'i ehangu i gyflawni'r blaenoriaethau ymchwil. | ASSAG | 3, 15, 16 | | | |
| 24 | Cyfrannu at ddatblygiad y sail dystiolaeth i hysbysu'r ymarfer gorau drwy weithgaredd ymchwil clinigol a chyhoeddiad adolygiadau gan gymheiriaid. | Bwrdd Iechyd | 3, 15, 16 | | | |
| 25 | Sicrhau cyllid/adnoddau cylchol ac yna cwblhau'r gwaith o gyflwyno awdioleg pwynt cyswllt cyntaf mewn gwasanaethau gofal sylfaenol. | Bwrdd Iechyd | 2, 4, 6, 7, 8, 15 | | | |
| 26 | Sicrhau cyllid/adnoddau cylchol ac yna cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r llwybr rheoli cwyr clust cenedlaethol. | Bwrdd Iechyd | 2, 4, 6, 7, 8, 15 | | | |
| 27 | Unwaith y byddant wedi'u gweithredu, parhau i ddatblygu ac estyn cwmpas y rolau gofal sylfaenol hyn (e.e. defnyddio cyfarwyddydau grwpiau cleifion, rheoli clustiau cymhleth, plant ifanc). | Bwrdd Iechyd | 2, 4, 6, 7, 8, 15 | | | |
| 28 | Sicrhau cyllid/adnoddau cylchol ac yna cwblhau'r gwaith o gyflwyno asesiadau clyw o fewn gwasanaethau asesu'r cof. | Bwrdd Iechyd | 2, 4, 5, 6, 14, 15 | | | |
| 29 | Sicrhau bod Byrddau Iechyd yn manteisio i'r eithaf ar gwmpas presennol ymarfer awdiolegwyr, gan gynnwys adnoddau:<br>• gweithredu atgyfeiriadau anfeddygol ar gyfer MRI<br>• gweithredu atgyfeiriadau uniongyrchol i awdioleg yn hytrach nag i adrannau ENT pan fo'n bosibl a lle bo angen atgyfeiriad gofal eilaidd i bobl ag anawsterau clyw a rhai cysylltiedig<br>• gweithredu llwybrau newydd ar gyfer rheoli OME (clust ludiog) mewn plant<br>• datblygu llwybrau arbenigol ar gyfer darparu mewnblaniadau clywedol gydol oes yn nes at y cartref<br>• datblygu a gweithredu gwasanaethau adsefydlu festibwlar<br>• gweithredu awdioleg mewn llwybrau gofal sylfaenol fel yn OB25 a OB26. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyd | 1, 2, 4 | | | |

| | Amcan | Dan arweiniad | Cysylltiad â'r Amcan | Blwy-ddyn 1 | Blwy-ddyn 2 | Blwy-ddyn 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 | Ystyried anghenion poblogaethau sy'n wynebu risg (h.y. lle bo anawsterau clyw neu anawsterau cysylltiedig yn fwy cyffredin neu lle bo hunaneiriolaeth yn fwy heriol) a datblygu cynlluniau/acPenaethiaid Gwasanaeth busnes i estyn gwasanaethau awdioleg e.e. i bobl sy'n byw gyda dementia neu mewn cartrefi gofal. Cynnwys ffocws penodol ar y Gymraeg/nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r gwaith hwn. | Bwrdd Iechyd | 4, 5, 6, 7, 8, 15 | | | |
| 31 | Gwerthuso'r angen am asesiadau clyw wedi'u targedu a darparu gwasanaeth awdioleg wedi'i deilwra i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan lunio a gweithredu unrhyw argymhellion. Cynnwys ffocws penodol ar y Gymraeg/nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r gwaith hwn. | Bwrdd Iechyd | 4, 5, 6, 7, 8, 14, 15 | | | |
| 32 | Gweithio gydag eraill i ddatblygu systemau ac adnoddau i gefnogi hyfforddiant staff cartrefi gofal a sicrwydd ansawdd neu achrediad ar gyfer cartrefi gofal, i ateb anghenion clyw a chyfathrebu ac i gefnogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau am breswylfeydd yn y dyfodol. Cynnwys ffocws penodol ar y Gymraeg/nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r gwaith hwn. | AaGIC | 5, 6, 8, 10, 11 | | | |
| 33 | Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i gyflawni'r amcanion yn yr holl gynlluniau strategol i'w cyflawni; gan gynnwys y gwelliant a nodwyd drwy sicrwydd ansawdd yn erbyn safonau ansawdd cenedlaethol. Cynnwys ffocws penodol ar y Gymraeg/nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r gwaith hwn. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyd | 15 | | | |
| 34 | Datblygu a chyflawni cynllun ar gyfer yr adolygiad o'r Safonau Ansawdd a'u hoffer archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn uchelgeisiol, gan sicrhau eu bod yn cwmpasu pob maes clinigol. Cynnwys ffocws penodol ar y Gymraeg fel rhan o'r gwaith hwn. | ASSAG | 15 | | | |
| 35 | Nodi dangosyddion perfformiad allweddol mewn Safonau Ansawdd, a nodwyd ar y cyd â gweithwyr proffesiynol ledled gwledydd y DU i gefnogi cymariaethau rhwng y gwledydd. Datblygu systemau sicrwydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cyd-fynd ag archwiliadau Safonau Ansawdd. | ASSAG | 15 | | | |
| 36 | Datblygu Safonau Ansawdd a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer awdioleg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol (pwynt cyswllt cyntaf a rheoli cwyr clust) gan ddefnyddio'r un dull ar gyfer Safonau Ansawdd Awdioleg eraill. | ASSAG | 4, 6, 15 | | | |
| 37 | Gweithredu'r argymhellion yn Adolygiad Ansawdd Awdioleg Bediatrig. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyd | 1, 3, 11, 13, 15 | | | |
| 38 | Datblygu cynlluniau ar gyfer digwyddiadau dysgu cenedlaethol i sicrhau dysgu, rhannu a gwelliant yn sgil y Safonau Ansawdd a gweithgareddau'r Safonau Ansawdd; hyn i gynnwys sefydlu Cynhadledd Genedlaethol Awdioleg flynyddol (Awdioleg Cymru). | ASSAG & Penaethiaid Gwasanaeth | 15 | | | |
| 39 | Gweithio gydag eraill i ddatblygu dangosfwrdd Ansawdd Awdioleg cenedlaethol i gofnodi a monitro'n gadarn amrywiaeth o fesurau ansawdd y gellir eu rhannu â'r cyhoedd. | ASSAG | 13, 15 | | | |
| 40 | Gweithio gyda grwpiau proffesiynol awdioleg eraill ledled y DU i sefydlu grŵp cydweithredol proffesiynol ar gyfer y pedair gwlad, er mwyn bwrw ymlaen â gwaith sydd o fudd i bawb. | Penaethiaid Gwasanaeth | 3, 11, 15 | | | |

| | Amcan | Dan arweiniad | Cysylltiad â'r Amcan | Blwy-ddyn 1 | Blwy-ddyn 2 | Blwy-ddyn 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 41 | Gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad cofrestr i'r rhai sydd ag anghenion clyw a chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg). | Bwrdd Iechyd | 6, 8, 11 | | | |
| 42 | Ymchwilio i'r adnoddau ffisegol (ystad; cyfarpar diagnostig) sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau awdioleg mewn gofal eilaidd a mwy o leoliadau cymunedol. Cynnwys y defnydd o ganolfannau diagnostig a cherbydau symudol. | Bwrdd Iechyd | 2, 6, 7 | | | |
| 43 | Gweithio gydag eraill i ddatblygu manyleb genedlaethol ar gyfer canolfannau awdioleg; sicrhau bod canllawiau/manylebau dylunio awdioleg ar gyfer cyfleusterau clinigol ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. | Bwrdd Iechyd | 2, 6, 7 | | | |
| 44 | Datblygu a chynyddu'r cydweithredu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau gofal iechyd eraill i gefnogi pobl â cholled clyw a chyflyrau/cydafiachedd cysylltiedig. Meithrin cydweithredwyr cenedlaethol a lleol a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen o fewn llwybrau clinigol. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyd | 4, 6, 7, 11, 14, 15 | | | |
| 45 | Sefydlu/adolygu rôl grwpiau gofal clyw cydweithredol i adlewyrchu amcanion y *Dull Gweithredu*. | Penaethiaid Gwasanaeth & Bwrdd Iechyds | 11, 15 | | | |